


Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026

Cynllun Teithio



Canllawiau
Cynllunio Atodol

Gorffennaf 2018



Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol	4
3.	Statws y Canllawiau	5
4.	Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi.....	6
5.	Beth yw Cynllun Teithio?	11
6.	Mathau o Gynlluniau Teithio	13
7.	Pryd fydd angen Cynllun Teithio?.....	16
8.	Beth yw buddion Cynllun Teithio?	18
9.	Asesiadau Trafnidiaeth a Chynlluniau Teithio	20
10.	Cynlluniau Teithio a'r Broses Cais Cynllunio	21
11.	Strwythur a Chynnwys Cynllun Teithio	24
12.	Rhagor o Gyngor a Chysylltiadau.....	35
13.	Rhagor o Ganllawiau a Gwybodaeth.....	37
14.	Atodiadau	38
14.1.	Atodiad 1: Amcanion a Pholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol perthnasol.....	38
14.2.	Atodiad 2: Sampl Holiadur Cynllun Teithio Staff	43
14.3.	Atodiad 3: Mesurau Cynlluniau Teithio ar gyfer gwahanol ddulliau trafndiaeth.....	48
14.4.	Atodiad 4: Cyfrifoldebau Cydlynedd Cynlluniau Teithio.....	51
14.5.	Atodiad 5: Enghreifftiau o Bwyntiau Gweithredu Cynllun Teithio	53
14.6.	Atodiad 6: Enghreifftiau o Fapiau Llwybrau Preswyl (Ffynhonnell: Asbri Planning)	55

Table

Table 1: Trothwyon Cynllun Teithio.....	16
---	----

Ffigwr

Ffigwr 1: Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy	12
Ffigwr 2: Mesurau Cyffredinol i Gynlluniau Teithio	30

1. Cyflwyniad

- 1.1. Gall lleoliad, maint a natur datblygiad newydd gael dylanwad uniongyrchol ar y dull teithio y bydd trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr yn ei ddefnyddio i deithio i'r safle ac oddi yno. Heb ymyrraeth gadarnhaol ac anogaeth gynnar, mae'n debyg y bydd y mwyafrif o bobl yn dibynnu'n helaeth ar y defnydd o gerbydau preifat i deithio i'r datblygiad ac oddi yno. Ar ben hynny, cydnabyddir bod unigolion yn fwy tebygol o newid eu harferion teithio pan fyddant yn gwneud newid sylweddol i'w ffordd o fyw, megis dechrau swydd newydd neu symud cartref. Felly, gall newidiadau ffordd o fyw o'r fath fod yn gyfle gwych i annog pobl i newid eu harferion teithio.
- 1.2. Gall cynlluniau teithio gynnig buddion niferus nid yn unig i gyflogwyr a gweithwyr neu drigolion newydd, ond hefyd i'r gymuned gyfagos lle mae'r datblygiad newydd. Gall y mentrau teithio cynaliadwy o fewn cynllun teithio fod o fudd economaidd i fudiad neu unigolion a gallant hefyd leddfu materion parcio a thagfeydd lleol, cyfrannu at well ansawdd aer lleol, meithrin ffyrdd iachach o fyw a helpu i gefnogi trafniadaeth gyhoeddus o fewn ardal.
- 1.3. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r gofyniad i gynhyrchu cynlluniau teithio i gyd-fynd â chynigion datblygu mawr newydd wedi cynyddu. Cydnabyddir cynlluniau teithio gan Lywodraeth Cymru fel ffordd bwysig o gyflawni gwelliannau amgylcheddol, trafniadaeth, a ffordd o fyw ac maent yn aml yn cael eu sicrhau trwy amodau cynllunio, ac mewn rhai achosion rhwymedigaethau cynllunio sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio.
- 1.4. Felly ceir derbyniad eang i fuddion cynlluniau teithio. Mae'r Cyngor yn dymuno sicrhau bod cynlluniau datblygu (a lle bo hynny'n briodol, newidiadau defnydd) sy'n debygol o greu symudiadau teithio sylweddol yn cynnwys cynlluniau teithio er mwyn lleihau eu heffaith ar y gymuned gyfagos ac annog teithio cynaliadwy.

2. Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol

2.1. Cynhyrchwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn i gefnogi ac ychwanegu manylion at Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Bro Morgannwg 2011-2026 (CDLI). Mae nifer o bolisiâu'r CDLI yn cydnabod yr angen am ddatblygiad newydd i hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy a sicrhau bod datblygiadau newydd yn hygyrch trwy ddulliau trafndiaeth gynaliadwy. Yn benodol, mae Polisi MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) yn mynnu bod datblygiad yn darparu amgylcheddau diogel a hygyrch i bob defnyddiwr sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus. Mae'r testun ategol i'r polisi yn hyrwyddo mabwysiadu cynlluniau teithio ar gyfer cynigion datblygu sy'n debygol o greu teithiau trafndiaeth sylweddol. Felly paratowyd y CCA hwn i roi canllawiau i ymgeiswyr ar gynhyrchu a gweithredu cynlluniau teithio sy'n gysylltiedig â chynigion datblygu mawr newydd.

2.2. Yn benodol, mae'n darparu canllawiau ar:

- Gofynion y Cyngor ar gyfer Cynlluniau Teithio a phryd fydd angen cynlluniau teithio;
- Rôl Cynlluniau Teithio i leihau'r ddibyniaeth ar geir preifat ac annog y defnydd o ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth;
- Gwahanol fathau o Gynlluniau Teithio;
- Beth ddylai Cynllun Teithio ei gynnwys;
- Manteision Cynlluniau Teithio; a
- Sut y dylid monitro Cynlluniau Teithio.

2.3. Nid yw'n fwriad ailadrodd canllawiau a gynhwysir yn ddigonol o fewn deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol. Fodd bynnag, cyfeirir at rannau allweddol o ddeddfau perthnasol a pholisi cynllunio cenedlaethol yn y CCA er hwylustod.

3. Statws y Canllawiau

- 3.1. Cymeradwywyd canllawiau drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Cabinet ar 30 Ebrill 2018 a chynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori chwe wythnos rhwng dydd Mawrth 8 Mai a dydd Mawrth 19 Mehefin 2018 gyda'r dogfennau perthnasol ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor ac ar wefan y Cyngor. Ystyriodd y Cyngor y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori cyn cwblhau'r ddogfen hon, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 30 Gorffennaf 2018. Bydd yr arweiniad hwn yn ystyriaeth berthnasol bellach mewn penderfyniadau cynllunio perthnasol.
- 3.2. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 9 (Tachwedd 2016) yn cynghori y gellir ystyried CCA fel ystyriaeth berthnasol pan y'i paratowyd mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd a phartïon â diddordeb, a'i fod yn gyson â'r cynllun datblygu. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CCA yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau yn y dyfodol ym Mro Morgannwg.

4. Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

4.1. Deddfwriaeth Genedlaethol

- 4.1.1. Mae **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** yn ceisio cyflenwi system gynllunio sy'n deg, yn wydn, yn galluogi datblygu ac yn helpu i greu lleoedd cynaliadwy.
- 4.1.2. Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cynnwys saith nod llesiant y mae'n rhaid i awdurdodau lleol yn ogystal â chyrrff cyhoeddus eraill geisio eu cyflawni er mwyn gwella llesiant yn awr ac yn y dyfodol; mae nifer ohonynt yn cefnogi gwaith y CCA hwn o hyrwyddo teithio cynaliadwy.
- 4.1.3. Mae **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** yn ceisio ei gwneud hi'n haws i bobl gerdded a beicio yng Nghymru. Gwna'r Ddeddf hi'n ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol yng Nghymru fapio a chynllunio ar gyfer llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, ac i adeiladu a gwella eu seilwaith ar gyfer cerdded a beicio bob blwyddyn. Mae'n creu dyletswyddau newydd i awdurdodau priffyrdd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr a gwneud gwell darpariaeth ar eu cyfer. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo cerdded a beicio fel modd o drafnidiaeth.
- 4.1.4. Trwy gysylltu safleoedd allweddol fel gweithleoedd, ysbytai, ysgolion ac ardaloedd siopa gyda llwybrau teithio gweithredol, bydd y Ddeddf yn annog pobl i ddibynnu llai ar eu ceir wrth wneud siwrneiau byr, ac yn haws i Gynlluniau Teithio llwyddiannus gael eu gweithredu.
- 4.1.5. Canllawiau Dylunio, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (cyhoeddwyd Rhagfyr 2014). Mae'r ddogfen hon yn ganllaw statudol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru o dan bwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r Canllawiau'n rhoi cyngor ar gynllunio, dylunio, adeiladu a chynnal a chadw rhwydweithiau teithio gweithredol a seilwaith, ac mae'n rhaid ei defnyddio ym mhob cam o'r broses.

4.2. Polisi Cenedlaethol

- 4.2.1. **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9, Tachwedd 2016) (PCC)** - Mae PCC yn nodi pryd y mae'n debygol y bydd angen Asesiadau Trafnidiaeth (ATau) ar gyfer cynigion datblygu newydd ac yn cydnabod eu bod yn fecanwaith

pwysig ar gyfer sefydlu effeithiau tebygol datblygiad neu ailddatblygiad arfaethedig ar y rhwydwaith priffyrdd lleol yn ogystal â darparu'r sail i drafodaethau ar fanylion y cynllun, gan gynnwys lefelau parcio, a mesurau i wella cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, a darparu'r sail ar gyfer paratoi Cynlluniau Teithio.

- 4.2.2. Noda Paragraff 8.7.1: “*Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sydd â goblygiadau i drafnidiaeth, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol ystyried: effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar y galw am deithio; lefel a natur y ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus; y gallu i gyrraedd y safle drwy ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau o deithio; y cyfleoedd i hyrwyddo siwrneiau teithio llesol, a sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwell, yn unol â darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013; parodrwydd y datblygwr i hyrwyddo teithio drwy gerdded neu feicio neu ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu ddarparu seilwaith neu fesurau i reoli traffig, er mwyn trechu gwrthwynebiadau ar sail trafnidiaeth i ddatblygiad arfaethedig (fodd bynnag, nid yw talu am fesurau o'r fath yn cyfiawnhau rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad na fyddai'n cael ei ganiatáu fel arall); effaith y seilwaith drafnidiaeth a'r traffig sy'n cael ei greu ar yr amgylchedd (â phwyslais arbennig ar leihau cymaint â phosibl ar y ffactorau sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd ac sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth); effaith ar ddiogelwch a hwylustod defnyddwyr eraill y rhwydwaith trafnidiaeth.*”
- 4.2.3. Noda Paragraff 8.7.5: “*Lle bo angen hynny, mae hawl cyfreithlon i osod amodau cynllunio wrth roi caniatâd cynllunio er mwyn sicrhau mesurau a chyfleusterau trafnidiaeth ar y safle fel rhan o'r datblygiad arfaethedig. Gellir defnyddio rhwymedigaethau cynllunio hefyd, o dan amgylchiadau priodol, er mwyn sicrhau gwelliannau oddi ar y safle o ran cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, pe byddai mesurau o'r fath yn debygol o ddylanwadu ar batrymau teithio i'r safle dan sylw.*” (mae'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio yn cynnwys mwy o wybodaeth am ofynion y Cyngor o ran chyfleusterau trafnidiaeth gynaliadwy).
- 4.2.4. **Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)** – Mae TAN 18 yn ategu PCC ac yn darparu canllawiau ychwanegol ar sicrhau system gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth integredig a chynaliadwy. Mae TAN 18 yn annog paratoi a chyflwyno cynlluniau teithio fel rhan o'r Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth (SGT) ochr yn ochr â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygu a fydd â goblygiadau trafnidiaeth sylweddol. Hyrwydda Llywodraeth Cymru

fabwysiadu eang o gynlluniau teithio gan fusnesau, ysgolion, ysbytai, atyniadau i dwristiaid, datblygiadau preswyl mawr a defnyddiau sylweddol sy'n cynhyrchu teithio.

- 4.2.5. Mae'r TAN yn rhoi canllawiau ar sut a phryd y dylid paratoi cynllun teithio yn ystod y broses gynllunio ac mae'n ailadrodd pwysigrwydd cynlluniau teithio fel mecanwaith ar gyfer codi ymwybyddiaeth o deithio cynaliadwy y tu allan i'r broses hon. Fodd bynnag, mae'r TAN yn nodi'n glir y bydd y pwysau sydd ynghlwm wrth gynllun teithio wrth benderfynu ar gais cynllunio yn dibynnu ar ba raddau y gellir ei sicrhau (neu rannau ohono) trwy amod neu rwymedigaeth gynllunio, ac i ba raddau y mae'n adlewyrchu pa mor dderbyniol yw'r datblygiad arfaethedig. Ni ddylid fyth ganiatáu datblygiad annerbyniol oherwydd bodolaeth cynllun teithio, os na ellir gorfodi gweithredu'r cynllun hwnnw.
- 4.2.6. Cadarnha'r TAN y gellir gosod amodau cynllunio yn gyfreithlon ar ganiatâd cynllunio i sicrhau mesurau a chyfleusterau trafndiaeth fel rhan o ddatblygiad arfaethedig, a gellid defnyddio llawer o amodau i hwyluso'r mesurau a gynhwysir o fewn cynllun teithio.

4.3. Cyd-destun Polisi Lleol

- 4.3.1. **Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bro Morgannwg (CDLI)** - Y CDLI sy'n ffurfio'r cynllun datblygu mabwysiedig ar gyfer yr ardal. Mae'r egwyddorion cynaliadwyedd yn greiddiol i'r CDLI, ac mae'n cynnwys nifer o amcanion (1, 2 a 3) sy'n ceisio hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, lleihau effaith newid yn yr hinsawdd a hybu mynediad at fathau o drafnidiaeth gynaliadwy. Gellir gweld yr amcanion hyn ynghyd â'r polisiâu perthnasol eraill y cyfeirir atynt isod yn Atodiad 1.
- 4.3.2. Er mwyn cefnogi amcanion y CDLI, mae nifer o bolisiâu strategol, a rheoli polisiâu datblygu sy'n berthnasol i gynlluniau teithio. Mae'r rhain yn cynnwys:
- **Polisi SP1 – Cyflenwi'r Strategaeth** – Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer cyflenwi strategaeth y CDLI ac mae maen prawf 4 yn ceisio hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy.
 - **Polisi SP7 – Trafndiaeth** – Mae'r polisi hwn yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy ac yn nodi y rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau sy'n gwella diogelwch y briffordd a thrafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.

- **Polisi MD1 – Lleoliad Datblygiad Newydd** – Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer datblygu yn y dyfodol ar safleoedd heb eu dyrannu ym Mro Morgannwg. Ceisia sicrhau hygyrchedd datblygiadau newydd trwy'r defnydd o ddulliau trafndiaeth gynaliadwy, neu trwy hyrwyddo'r rhain (mae maen prawf 5 yn cyfeirio at hyn).
- **Polisi MD2 - Dyluniad Datblygiadau Newydd** – Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r egwyddorion allweddol ar gyfer datblygiadau newydd o ran dyluniad, i greu lleoedd o ansawdd uchel, iach, cynaliadwy a hynod yn lleol. Dylai cynigion ddarparu amgylcheddau diogel a hygyrch i bob defnyddiwr sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus. Mae'r testun ategol i'r polisi yn hyrwyddo mabwysiadu cynlluniau teithio ar gyfer cynigion datblygu sy'n debygol o greu teithiau trafndiaeth sylweddol. Mae'n nodi y bydd yr angen am gynllun teithio yn cael ei nodi'n gynnar fel rhan o'r broses cyn gwneud cais neu drafodaethau cwmpasu gyda'r Cyngor.
- **Polisi MD4 – Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio** – lle bo'n briodol a chan ystyried hyfywedd datblygiad, mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod datblygiadau yn darparu seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd neu well gan gynnwys seilwaith trafndiaeth a gwasanaethau i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus.

4.3.3. Mae'r CDLI hefyd yn cynnwys dangosyddion lleol perthnasol (3.2 a 3.3 yn cyfeirio at hyn) o fewn y Fframwaith Monitro o dan '*Amcan 3: Lleihau'r angen i drigolion Bro Morgannwg deithio i ddiwallu eu hanghenion dyddiol a'u galluogi i gael mwy o fynediad at fathau o drafndiaeth gynaliadwy*'.

4.3.4. **Cynllun Trafndiaeth Lleol 2015 - 2030 (LTP)** - Mae'r CTLI yn gosod yr agenda drafndiaeth i Fro Morgannwg, trwy nodi'r mesurau trafndiaeth gynaliadwy sy'n ofynnol ar gyfer y cyfnod 2015 i 2020 yn ogystal ag edrych ymlaen at 2030. Mae'r CTLI yn ceisio ffyrdd o sicrhau gwell amodau i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus, ac yn annog newid mewn dewisiadau teithio oddi wrth deithiau gyrrwr yn unig mewn car. Mae'r CTLI hefyd yn ceisio ymdrin â thagfeydd traffig trwy sicrhau gwelliannau i'r coridorau priffyrdd strategol i gymudwyr a allai fod angen teithio mewn car, yn ogystal â darparu seilwaith gwell ar gyfer cludo nwyddau. Mae hefyd yn ymdrin â blaenoriaethau diogelwch ffyrdd allweddol y Fro.

4.4. Canllawiau Cynllunio Atodol

- 4.4.1. **CCA Rhwymedigaethau Cynllunio** – Mae'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio, a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2017, yn rhoi eglurhad o ble, pwy a phryd y gofynnir am rhwymedigaethau cynllunio, er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i greu cymunedau cynaliadwy sy'n darparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r canllawiau hyn yn cynnig cyngor ar rhwymedigaethau cynllunio i gefnogi'r polisiau yn CDLI Bro Morgannwg, gan gynnwys gofynion rhwymedigaeth cynllunio ar gyfer cyfleusterau trafndiaeth gynaliadwy a fydd yn cynorthwyo i ddarparu Cynlluniau Teithio Ilwyddiannus.
- 4.4.2. **CCA Safonau Parcio** – Mae'r CCA hwn yn nodi safonau parcio'r Cyngor ac yn egluro'r polisi cynllunio ar gyfer gofynion parcio i ddatblygiadau newydd neu newid defnydd.

5. Beth yw Cynllun Teithio?

- 5.1. Mae dogfen deithio yn nodi pecyn o fesurau, mentrau a thargedau sy'n cael eu hanelu at leihau teithiau gyrrwr yn unig, a hyrwyddo dewisiadau teithio mwy cynaliadwy. Naill ai fe gânt eu hyrwyddo yn wirfoddol gan y datblygwr, neu, fel arfer, cânt eu sicrhau trwy amodau cynllunio neu rwymedigaethau cynllunio. Eu nod yw lleihau effaith teithio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd. Lle bo'n bosibl, i fod fwyaf effeithiol, dylid paratoi cynlluniau teithio ochr yn ochr â chynigion datblygu a'u hintegreiddio'n rhwydd i ddylunio a meddiant o'r safle newydd, yn hytrach na cheisio eu hôl-osod yn dilyn meddiant.
- 5.2. Dylai cynlluniau teithio ymdrin â phob un o'r teithiau i safle ac oddi yno gan unrhyw un a allai fod angen ymweld, gweithio neu fyw yno. Dylai cynlluniau teithio gael eu seilio ar dystiolaeth o effeithiau trafndiaeth a ragwelir o'r datblygiad, a sefydlir fel arfer trwy Aseiad Trafnidiaeth (gweler Nodyn Cyngor Technegol 18 am ganllawiau pellach ar Aseidiadau Trafnidiaeth). Dylent sefydlu mesurau pwrpasol realistig a phenodol sy'n ceisio hyrwyddo ac annog y defnydd o deithio cynaliadwy i'r safle ac oddi yno.
- 5.3. Yn achos datblygiad lle nad yw'r defnyddiwr terfynol yn hysbys, bydd angen cynllun teithio amlinellol (gweler paragraff 6.2 isod), a ddylai fod yn seiliedig ar ddata arolwg o fathau tebyg o ddatblygiadau mewn lleoliadau tebyg. Fodd bynnag, unwaith y bydd y defnyddiwr terfynol wedi cael ei benderfynu, rhaid cynhyrchu cynllun teithio llawn (gweler paragraff 6.3 isod) gan ei bod yn bwysig bod opsiynau teithio ar gael i ddefnyddwyr y safle cyn meddiant a chyn sefydlu patrymau teithio. Dylid cynnal arolygon cynllun teithio llawn o'r datblygiad newydd cyn gynted ag y bo modd, fel arfer o fewn chwe mis, yn dilyn meddiant llesiannol o'r datblygiad, er mwyn galluogi gosod targedau cadarn a pherthnasol.
- 5.4. Prif amcan cynllun teithio yw darparu cymhellion ac/neu anfanteision i ddefnyddwyr terfynol datblygiad i leihau eu dibyniaeth ar gerbydau preifat fel eu dull teithio cyntaf. Dylai cynllun teithio llwyddiannus annog y defnydd o ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth megis cerdded, beicio, trafndiaeth gyhoeddus neu rannu ceir neu, yn wir, dileu'r angen i deithio'n gyfan gwbl.

Ffigwr 1: Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy



5.5. Er ei bod yn debygol y bydd angen cynllun teithio ar y cyd â chais cynllunio, bydd angen iddo fod yn ddigon hyblyg a deinamig i ystyried gofynion ac amgylchiadau esblygol y datblygiad unigol y mae'n berthnasol iddo, a dylid ei adolygu a'i ddiweddarau yn rheolaidd.

6. Mathau o Gynlluniau Teithio

- 6.1.1. Yn gyffredinol, mae cynlluniau teithio mewn dau brif categori: cynlluniau teithio 'cyrchfan' a chynlluniau teithio 'tarddiad'. Mae cynlluniau teithio cyrchfan yn ceisio cynyddu teithio cynaliadwy i gyrchfan fel gweithle, ysgol, ysbyty, prifysgol neu atyniad hamdden lle mae gan y rhan fwyaf o deithiau fwriad cyffredin. Mae cynlluniau teithio tarddiad (cynlluniau teithio preswyl) yn canolbwyntio ar darddiad sengl o'r lle y gwneir y teithiau i lawer o leoedd amrywiol ac at ddibenion lluosog. Gweler enghraifft o asesiad safle cynllun teithio preswyl a chanllawiau map llwybrau i drigolion yn Atodiad 6. Mae'n bosib y paratuir cynlluniau teithio, yn unigol neu ar y cyd, gan berchnogion a gweithredwyr datblygiadau presennol neu arfaethedig.
- 6.1.2. Er y bydd pob datblygiad sydd angen cynllun teithio angen cynllun teithio llawn ar ryw adeg, mae sawl math o gynllun teithio a allai fod yn fwy priodol yng nghyfnodau cychwynnol datblygiad. Nodir y gwahanol fathau o gynllun teithio isod:

6.2. Cynlluniau Teithio dros dro neu amlinellol

- 6.2.1. Lle nad yw'r union raddfa a'r rhaniad o ddefnyddiau yn hysbys, fel gyda chais amlinellol, efallai na fydd yn bosib cwblhau cynllun teithio llawn. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd cynllun teithio dros dro yn briodol hyd nes y gwyddys yr union gymysgedd. Bydd cynllun teithio dros dro yn cwmpasu holl elfennau sylweddol cynllun teithio llawn, gan gynnwys targedau sy'n ymwneud â'r gwahanol ddefnyddiau tir, hygyrchedd y safle a'i leoliad ayb. Fodd bynnag, bydd rhai elfennau o'r cynllun teithio yn amodol hyd nes y bydd rhai elfennau e.e. y cymysgedd terfynol, yn cael eu cadarnhau. Serch hynny, dylai cynllun dros dro nodi amserlen ar gyfer cwblhau'r cynllun teithio llawn unwaith y bydd y sefyllfa yn amlwg.

6.3. Cynlluniau Teithio llawn

- 6.3.1. Dylid paratoi cynlluniau teithio llawn ar gyfer ceisiadau cynllunio llawn lle mae'r anghenion defnydd a hygyrchedd arfaethedig yn hysbys. Efallai y bydd cynlluniau teithio llawn yn briodol hefyd gyda cheisiadau amlinellol lle mae graddfa'r defnyddiau yn hysbys. Dylai cynllun teithio llawn gynnwys targedau a chanlyniadau clir ynghyd â mesurau i sicrhau y gellir cyflawni'r rhain. Ar gyfer rhai defnyddiau, e.e. ysgolion, canolfannau iechyd, dim ond cynllun

teithio llawn fydd yn addas. Lle bo modd, dylid datblygu cynllun teithio llawn yn hytrach na chynllun teithio dros dro.

6.4. Cynllun Teithio Fframwaith

6.4.1. Yn achos datblygiadau mawr gyda datblygwyr lluosog (neu ddefnyddiau/elfennau lluosog), bydd yn briodol paratoi cynllun teithio fframwaith cyffredinol. Dylai'r cynllun teithio fframwaith nodi paramedrau a chanlyniadau, targedau a dangosyddion cyffredinol ar gyfer y safle cyfan. Bydd angen is-gynlluniau teithio ar ôl hynny ar gyfer pob meddiannydd terfynol (neu ddefnyddiwr/elfen). Dylai'r is-gynlluniau teithio fod yn gyson â thargedau a gofynion ehangach y cynllun teithio fframwaith, a chydymffurfio â hwy.

6.5. Datganiad Cynllun Teithio

6.5.1. Efallai na fydd ceisiadau bach sy'n disgyn o dan y trothwyon a nodir yn Nhabl 1 yn cyfiawnhau cynllun teithio llawn ond gallai fod yn briodol i fesurau gael eu rhoi ar waith i annog teithio cynaliadwy a lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat. Mewn achosion o'r fath, gall datganiad cynllun teithio ymdrin ag unrhyw faterion a nodwyd yn y datganiad trafndiaeth, a gall fod ar ffurf cynllun gweithredu neu restr o fesurau a fydd yn cael eu hyrwyddo a/neu eu datblygu gan ddatblygwr neu feddiannydd y safle e.e. efallai y bydd angen i'r datblygwr/meddiannydd ymuno â fforwm teithio leol neu rwydwaith tebyg. Mae'n annhebygol y byddai datganiad cynllun teithio yn cynnwys ymrwymiad i fonitro ffurfiol sy'n ffurfio elfen allweddol o gynlluniau teithio uwch.

6.6. Cynllun Teithio ledled yr ardal

6.6.1. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n hanfodol ystyried ardal ehangach na'r safle unigol os am sicrhau cyflenwi'r canlyniadau a geisir. Defnyddir cynlluniau teithio ledled ardal fel arfer fel rhan o uwchgynllun datblygu ar gyfer ardaloedd mwy lle mae safleoedd lluosog yn cael eu hystyried. Ar ôl i'r cynigion datblygu gael eu cyflwyno yn ffurfiol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, mae'n debyg eu bod wedi cael eu datblygu'n ddigonol i ganiatáu i gynllun teithio fframwaith llawn, dros dro neu fframwaith fod wedi ei baratoi i ategu'r cyflwyniad.

6.7. Cynlluniau Teithio Ysgolion

6.7.1. Mae gan ysgolion y capasiti i gynhyrchu lefelau sylweddol o symudiadau cerbydau ar adegau penodol o'r dydd a gall hyn, ynghyd â'u lleoliadau yn

gyffredinol o fewn canolfannau poblogaeth, arwain at effeithiau andwyol ar yr ardal gyfagos.

- 6.7.2. Mae cynllun teithio ysgol yn becyn penodol o fesurau a gynlluniwyd i annog disgyblion, rhieni a staff i ddefnyddio dulliau trafndiaeth gynaliadwy i gyrraedd a gadael yr ysgol. Bydd y mesurau a ddefnyddir yn amrywio yn ôl maint, natur a lleoliad yr ysgol ond bydd yn hwyluso teithio llesol, iach, diogel a chynaliadwy i'r ysgol fel dewis amgen i'r car preifat. Er y bydd llawer o fesurau yr un fath neu'n debyg i'r rhai a ddefnyddir mewn amgylchedd busnes, bydd eraill yn cynnwys gwahanol fesurau sy'n fwy addas i amgylchedd o'r fath a'r bobl a dargedir e.e. bysiau cerdded

6.8. Cynlluniau Teithio Preswyl

- 6.8.1. Mae cynllun teithio preswyl yn becyn o fesurau a gynlluniwyd i leihau nifer a hyd y teithiau ceir a gynhyrchir gan ddatblygiad preswyl, a hefyd i gefnogi dulliau teithio mwy cynaliadwy a lleihau'r angen cyffredinol i deithio. Mewn cyferbyniad â chynlluniau teithio cyrchfan (e.e. cynlluniau teithio ysgol/gweithle), mae cynllun teithio preswyl yn ymwneud â theithiau a wneir o un tarddiad (cartref) i gyrchfannau lluosog a newidiol.
- 6.8.2. Fel gyda chynlluniau teithio cyrchfan, byddai'n gyffredinol yn cyfuno'r mesurau 'meddal' o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth gyda mesurau 'caled' a gwelliannau i ddylunio, seilwaith a gwasanaethau, ar y safle ac oddi ar y safle. Yn ogystal, oherwydd nifer o ddibenion teithiau o gartref, efallai y bydd angen i'r cynllun teithio preswyl ymgorffori ystod ehangach o fesurau i annog dewisiadau teithio mwy cynaliadwy. Bydd angen iddo fod yn "addas i'r diben" o ystyried yr amrywiaeth sylweddol o raddfeydd, lleoliadau a mathau o ddatblygiadau preswyl. Dylai cynllun teithio preswyl hefyd gynnwys targedau, monitro a threfniadau rheoli i sicrhau bod amcanion y cynllun teithio yn cael eu cyflawni, a'i fod yn parhau'n gynaliadwy yn y tymor hirach.

7. Pryd fydd angen Cynllun Teithio?

- 7.1. Fel rheol bydd y Cyngor yn mynnu bod cynllun teithio yn cael ei baratoi ar gyfer datblygiadau sy'n uwch na'r trothwyon canlynol oherwydd bod y rhain yn fwyaf tebygol o fod ag goblygiadau trafndiaeth sy'n effeithio ar yr ardal:

Table 1: Trothwyon Cynllun Teithio

Defnydd	Trothwy
Manwerthu	> 1,000 m ² arwynebedd llawr
Cyfleusterau hamdden gan gynnwys gwestai	> 1,000 m ² arwynebedd llawr
Busnes	> 2,500 m ² arwynebedd llawr
Diwydiant	> 5,000 m ² arwynebedd llawr
Dosbarthu a warysau	> 10,000 m ² arwynebedd llawr
Ysbytai	> 2,500 m ² arwynebedd llawr
Addysg uwch ac addysg bellach	> 2,500 m ² arwynebedd llawr
Ysgolion	Bob ysgol newydd
Stadia	> 1,500 o seddi
Tai	> 50 annedd

- 7.2. Mae'n bwysig nodi nad yw Tabl 1 yn gynhwysfawr a gall y Cyngor ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno cynllun teithio i gefnogi ceisiadau cynllunio sy'n disgyn islaw'r trothwyon a nodir pan fo'u eu heffaith ar y rhwydwaith trafndiaeth lleol yn debygol o fod yn sylweddol, neu lle mae amgylchiadau lleol penodol yn bodoli, megis lefelau isel o barcio ceir. Mae angen ystyried hefyd estyniadau arfaethedig i ddatblygiadau presennol a p'un a yw estyniadau o'r fath yn gwneud cynhyrchu cynllun teithio yn angenrheidiol.
- 7.3. Wrth ystyried a fydd angen cynllun teithio ar gyfer datblygiad arfaethedig, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried materion fel:
- Graddfa'r datblygiad arfaethedig, boed yn unigol neu wedi cronni â datblygiadau eraill, a'i botensial ar gyfer cynhyrchu teithiau ychwanegol;
 - Y sefyllfa drafndiaeth bresennol yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig ac argaeledd trafndiaeth gyhoeddus; ac

- Agosrwydd unrhyw ddynodiadau amgylcheddol cyfagos a allai fod yn arbennig o agored i effeithiau traffig neu ardaloedd sensitif e.e. Parthau Rheoli Ansawdd Aer.

7.4. Gall y defnydd nifer o ddatblygiadau newid dros amser ac er efallai na chafodd meddiannydd neu ddefnyddiwr cychwynnol y safle lawer o effaith andwyol ar yr ardal gyfagos, gallai'r defnydd newydd arfaethedig olygu dwysedd sylweddol o gerbydau sy'n gwasanaethu'r datblygiad. Felly, pan fo angen caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd adeilad sydd uwchlaw'r trothwyon perthnasol a nodir yn 6.1, fel rheol bydd y Cyngor yn gofyn am baratoi cynllun teithio diwygiedig neu gynllun teithio newydd i ystyried y newidiadau i'r proffil defnyddiwr, a'r effeithiau y gallai hyn eu cael ar y sefyllfa drafnidiaeth leol.

8. Beth yw buddion Cynllun Teithio?

8.1.1. Mae cynllunio teithio effeithiol yn gallu darparu - ac yn ddieithriad fe wna hynny - ystod eang o fuddion i ddatblygwyr a/neu meddianwyr y safle, awdurdodau lleol a'r cymunedau cyfagos, p'un a yw'n ddatblygiad newydd neu un sy'n bodoli eisoes.

8.2. I ddatblygwyr/cyflogwyr, gall cynlluniau teithio:

- Leihau costau gofynion parcio staff/preswylwyr (prydlesu neu gynnal manau parcio ceir) o bosibl yn rhyddhau gofod llawr at ddibenion eraill.
- Lleihau'r pwysau ar barcio ceir staff fel eu bod ar gael i'r rhai sydd eu hangen mewn gwirionedd.
- Lleihau costau fflyd busnes a hawliadau costau teithio.
- Lleihau ôl-troed carbon y sefydliad.
- Cyfrannu at well darpariaeth a mynediad i gwsmeriaid a achosir gan faterion traffig lleol.
- Gwella iechyd a ffitrwydd, cymhelliant a morâl staff.
- Helpu i recriwtio a chadw staff trwy wneud teithiau i waith yn haws ac yn rhatach a gwella delwedd y busnes fel cyflogwr cyfrifol.
- Hyrwyddo perthnasoedd da â chymunedau cyfagos a gwella delwedd y sefydliad a chymwysterau amgylcheddol.

8.3. I awdurdodau lleol a chymunedau cyfagos, gall cynlluniau teithio:

- Leihau tagfeydd amser brig a gwella diogelwch y rhwydwaith priffyrdd.
- Dod â gwelliannau amgylcheddol lleol o lai o lygredd a sŵn.
- Lleihau allyriadau CO2 sy'n cyfrannu at lygredd amgylcheddol a chynhesu byd-eang.
- Helpu i leihau anafusion ar y ffyrdd.
- Cynyddu ffitrwydd cyffredinol trwy ffyrdd o fyw iachach.
- Gwella hygyrchedd i wasanaethau a lleihad mewn allgau cymdeithasol a brofir gan grwpiau/ pobl sy'n llai tebygol o fod â char.
- Dod â gwelliannau i gyfleusterau trafndiaeth gynaliadwy gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus.

8.4. I weithwyr neu ddefnyddwyr, gall cynlluniau teithio:

- Ddarparu mynediad/ cymhellion gwell i ddulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy.
- Lleihau cost cymudo neu hyd yn oed dileu'r angen i fod yn berchen ar gar.
- Lleihau amseroedd teithio i'r gwaith, cyfleusterau hamdden a chyrchfannau eraill.
- Gwella iechyd corfforol a meddyliol trwy ddarparu'r cyfle i adeiladu ymarfer corff a rhyddhad straen i fywyd bob dydd.
- Parcio am ddim i'r bobl hynny sydd mewn gwirionedd angen defnyddio cerbyd.
- Darparu gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Rhoi buddion i bobl trwy symud gwobrwyon teithio yn seiliedig ar hynafedd i gymhellion ar gyfer teithio cynaliadwy.

9. Asesiadau Trafnidiaeth a Chynlluniau Teithio

- 9.1. Mae Asesiadau Trafnidiaeth (AT) yn nodi goblygiadau trafndiaeth datblygiad arfaethedig ac yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i asesu addasrwydd y cais o ran galw ac effaith teithio.
- 9.2. Dylid selio Asesiad Trafnidiaeth ar y teithiau tebygol a fydd yn digwydd yn sgil y datblygiad, a chynnwys dadansoddiad o'r effeithiau posibl ar batrymau symud presennol. Dylai proses yr Asesiad Trafnidiaeth arwain at lunio 'Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth' (SGT). Dylai'r strategaeth hon nodi'r amcanion a'r targedau sy'n ymwneud â rheoli anghenion trafndiaeth y datblygiad a nodi'r seilwaith, y mesurau rheoli anghenion a'r cyfraniadau ariannol sydd eu hangen i'w cyflawni. Ceir arweiniad pellach ar Asesiadau Trafnidiaeth a Strategaethau Gweithredu Trafnidiaeth yn Atodiad D Nodyn Cyngor Technegol 18 – Trafnidiaeth:

<https://gov.wales/docs/desh/publications/070301tan18en.pdf>

- 9.3. Cynlluniau teithio yw prif ganlyniad yr asesiadau, a byddant yn cynnwys pecyn o fesurau a mentrau integredig a gynlluniwyd i ymdrin ag anghenion trafndiaeth penodol y datblygiad arfaethedig. Dylid datblygu'r AT a'r cynllun teithio ochr yn ochr er mwyn sicrhau bod yr awdurdod cynllunio lleol yn fodlon y bydd y mesurau a'r mecanweithiau a gynhwysir yn y cynllun teithio yn cyflawni'r lliniaru angenrheidiol a nodwyd yn angenrheidiol yn yr AT a'r SGT. Dylai cynlluniau teithio ymwneud â thargedau ar gyfer lleihau traffig ar y ffordd a hybu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- 9.4. Pan fo cynllun teithio eisoes ar waith ar safle, er enghraifft lle mae cynigion i ymestyn neu ailddatblygu yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar y rhwydwaith trafndiaeth cyfagos, dylai'r cynllun teithio presennol gael ei integreiddio i broses AT a chyfrannu at yr asesiad sylfaenol.
- 9.5. Gall datblygwyr gyflwyno cynllun teithio yn wirfoddol gyda chais cynllunio, er enghraifft i ddangos bod gweithgaredd teithio cynaliadwy eisoes yn cael ei hyrwyddo ar y safle. Fodd bynnag, er mwyn penderfynu ar angenrheidrwydd ac effeithiolrwydd y cynllun teithio, mae'n well cynnal AT a datblygu cynllun teithio fel rhan o'r SGT. Bydd y pwysau sydd ynghlwm wrth gynllun teithio wrth benderfynu ar gais cynllunio yn dibynnu i ba raddau y gellir ei sicrhau

(neu rannau ohono) trwy amod neu rwymedigaeth cynllunio ac i ba raddau y mae'n effeithio ar dderbynioldeb y datblygiad arfaethedig.

- 9.6. Mae cynlluniau teithio nad ydynt yn gysylltiedig â cheisiadau cynllunio yn dal yn offeryn pwysig i godi ymwybyddiaeth effeithiau penderfyniadau teithio. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i hyrwyddo mabwysiadu eang o gynlluniau teithio gan fusnesau, ysgolion, ysbytai, atyniadau twristiaeth a defnyddiau arwyddocaol eraill o deithio.

10. Cynlluniau Teithio a'r Broses Cais Cynllunio

10.1. Cyn ymgeisio

10.1.1. Fel rheol, byddai'r Cyngor yn gallu cynghori p'un a oes angen Cynllun Teithio i gefnogi cais cynllunio fel rhan o drafodaethau cyn ymgeisio lle mae datblygwr yn cymryd rhan mewn trafodaethau o'r fath. Mae ymgymryd â thrafodaethau cyn ymgeisio yn arfer da yn achos y rhan fwyaf o gynigion datblygu, a gallant osgoi oedi ataliadwy yn y broses gynllunio, arbed costau ac osgoi rhwystredigaeth ddiangen i bawb dan sylw.

10.1.2. Pan fo angen cynllun teithio, mae trafodaethau cyn ymgeisio yn rhoi'r cyfle i nodi unrhyw faterion penodol sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig. Maent hefyd yn galluogi pennu cwmpas, graddfa a gofynion y cynllun teithio a galluogi ymgeiswyr i ymateb i'r pryderon neu'r materion hyn cyn cwblhau'r cynllun teithio i gefnogi'r cais cynllunio.

10.1.3. Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau cyngor cyn ymgeisio'r Cyngor i'w gweld ar wefan y Cyngor www.bromorgannwg.gov.uk

10.2. Cam Cais Cynllunio

10.2.1. P'un a yw cais cynllunio yn cael ei gyflwyno'n Amlinellol neu'n Llawn, os yw'n uwch na'r trothwyon a nodir yn 6.1 uchod, bydd rhaid cael Aseiad Trafnidiaeth (AT) a Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth (SGT) a fydd fel arfer yn nodi'r angen am Gynllun Teithio. Heb y rhain, mae'n debyg y tybir bod y cais cynllunio yn annilys ac ni fydd y Cyngor yn ei gofrestru.

10.2.2. Fel mater o arfer da, dylai Cynllun Teithio ddod gyda'r cais cynllunio, yn nodi'r safle a mesurau penodol datblygu a weithredir i hyrwyddo opsiynau

trafnidiaeth gynaliadwy, a lleihau'r defnydd dianghenraid o geir. Lle maent yn rhan o'r cais, gall Cynlluniau Teithio wella cymwysterau cynaliadwyedd cynnig datblygu, ac maent yn debygol o hysbysu materion megis gosodiad, parcio ceir, llwybrau beicio a llwybrau troed, storio beiciau a mynediad at drafndiaeth gyhoeddus. Mae Cynlluniau Teithio yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus pan y'u datblygwyd o'r cam cynnar hwn yn y broses.

10.3. Amodau/ Rhwymedigaethau Cynllunio

10.3.1. Yn absenoldeb Cynllun Teithio sy'n ffurfio rhan o'r cyflwyniadau cais cynllunio, bydd yn ofynnol iddo gael ei gyflwyno fel arfer trwy amod neu rwymedigaeth cynllunio. P'un a yw'n cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais ei hun, neu wedyn trwy gais rhyddhau amod, bydd y Cyngor yn defnyddio amodau i sicrhau bod y mesurau a gynhwysir yn y Cynllun Teithio cymeradwy yn cael eu gweithredu.

10.3.2. Ystyrir amodau yn y lle cyntaf, yn enwedig pan fo'r canlyniadau a'r mesurau sy'n ofynnol yn syml ac yn glir iawn. Os bydd y cynllun teithio'n fwy cymhleth, er enghraifft, lle mae'n ofynnol i'r datblygwr ddarparu cyfraniad ariannol, sicrheir y cynllun teithio fel rhwymedigaeth gynllunio o dan gytundeb Adran 106 (gweler y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio a gymeradwywyd).

10.3.3. Wrth benderfynu a ddylid sicrhau cynllun teithio trwy amod cynllunio neu drwy rwymedigaeth gynllunio, bydd y Cyngor yn ystyried Cylchlythyr 16/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygu, a'r cyngor a gynhwysir yn PCC (paragraff 3.5.7 yn cyfeirio at hyn).

10.4. Cymeradwyo Manylion Cynllun Teithio

10.4.1. Pan fo Cynllun Teithio wedi'i sicrhau trwy amod, bydd angen i'r datblygwr gyflwyno hyn i'r Cyngor i'w gymeradwyo cyn pwynt sbardun penodol, fel arfer cyn meddiant llesiannol o'r datblygiad. Disgwylir i ffurf a chynnwys y Cynllun Teithio ddilyn y cyngor a roddir yn y CCA hwn a bod yn addas i'r diben. Bydd angen gweithredu camau penodol y gellir eu mesur a'u gorfodi drwy'r system gynllunio.

10.4.2. Bydd angen i'r Cyngor gyflwyno adroddiadau monitro rheolaidd i ddangos bod y mesurau a'r mentrau a gynigir yn gweithredu'n llwyddiannus ac os nad ydynt, pa gamau sy'n cael eu cymryd i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi.

10.5. Gorfodi

10.5.1. Pan na chydymffurfiwyd â rhwymedigaethau cynllunio ac/neu amodau cynllunio mewn perthynas â chynlluniau teithio, ac nad yw'r mesurau a nodwyd yn y cynllun teithio wedi'u darparu na'u gweithredu, bydd y Cyngor yn cymryd y camau priodol i orfodi gweithredu'r mesurau rhagnodedig a sicrhau bod amcanion cyffredinol y cynllun teithio yn cael eu bodloni.

11. Strwythur a Chynnwys Cynllun Teithio

11.1. Nid oes unrhyw gynnwys neu strwythurau penodol ar gyfer cynlluniau teithio. Dylai pob cynllun teithio fod yn benodol i anghenion y safle neu'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef, a cheisio ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â'r datblygiad neu'r safle hwnnw. Byddai cynllun teithio fel arfer yn cynnwys rhai neu bob un o'r elfennau canlynol sy'n cael eu hystyried yn bwysig, ac sy'n darparu sail ar gyfer cynllun teithio llwyddiannus a chynhwysfawr.

Rhagair

11.2. Ar gyfer cynlluniau teithio yn y gweithle, un o'r prif ffactorau mewn llwyddiant cynlluniau teithio yw cefnogaeth weithredol uwch reolwyr y cwmni neu'r sefydliad. Bydd rhagair ymrwymedig gan uwch weithredwr neu reolwr nid yn unig yn ychwanegu pwysau ac yn darparu perchnogaeth o'r cynllun teithio ond bydd hefyd yn dangos ymrwymiad y cwmni neu'r sefydliad a'i reolwyr i lwyddiant y cynllun teithio.

11.3. Dylai'r rhagair gynnwys gwybodaeth sylfaenol am y cwmni, sut y bydd y cynllun teithio o fudd i'r staff a'r busnes ac unrhyw ddyheadau neu ymrwymadau amgylcheddol y gallai fod gan y cwmni.

11.4. Yn yr un modd, mewn cynllun teithio preswyl, bydd rhagair gan yr adeiladwr tai yn dangos ei ymrwymiad i'r project a'i ganlyniadau ar gyfer ei gwsmeriaid.

Cyflwyniad

11.5. Dylai'r adran hon nodi a rhoi trosolwg o gefndir y cynllun teithio a'r rheswm/rhesymau pam y mae'n cael ei baratoi. Dylid darparu gwybodaeth ar:

- Gyfeiriad y safle a'r lleoliad, gan gynnwys cynllun;
- Cyfeirnod y cais cynllunio;
- Manylion cyswllt y person sy'n gyfrifol am gynhyrchu a gweithredu'r cynllun teithio;
- Y math o gynllun teithio sy'n cael ei baratoi.

Cyd-destun

11.6. Dylai'r adran hon ddarparu gwybodaeth ar gyd-destun y cynllun teithio a chynnwys manylion ar natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig a chwmpas arfaethedig y cynllun teithio. Dylid darparu gwybodaeth ar:

- Strwythur a chwmpas y cynllun teithio sy'n cael ei baratoi ac at bwy y caiff ei anelu e.e. gweithwyr, ymwelwyr, trigolion ayb;
- Gwybodaeth am fanteision allweddol posibl gweithredu'r cynllun teithio;
- Gwybodaeth am natur a chwmpas y datblygiad arfaethedig a fydd yn meddiannu'r safle;
- Manylion y nifer o weithwyr arfaethedig, ymwelwyr tebygol, patrymau shift, oriau agor, amserlenni cyflwyno, ayb;
- Trefniadau mynediad presennol ac arfaethedig ac unrhyw faterion neu broblemau y gwyddys amdanynt;
- Amserlen ar gyfer meddiant a manylion unrhyw ddatblygiad graddol tebygol;
- Gwybodaeth am yr hyn a wnaed hyd yma, os unrhyw beth, i gyfrannu tuag at sefydlu'r cynllun teithio.

Asesu'r Safle

11.7. Bydd lleoliad, nodweddion a chyfleusterau safle yn cael dylanwad sylweddol ar sut mae gweithwyr neu drigolion yn teithio i'r datblygiad ac oddi yno.

11.8. Dyry asesiad safle drosolwg o'r sefyllfa bresennol yn y safle, a bydd yn helpu i nodi ffactorau sy'n galluogi defnyddwyr y safle yn y dyfodol i ddefnyddio dulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy. Dylid cynnwys gwybodaeth ar:


- Asesiad hygyrchedd lleoliad - y cysylltiadau trafndiaeth presennol a'r opsiynau trafndiaeth sydd ar gael i weithwyr, ymwelwyr a thrigolion, gan gynnwys cerdded, beicio, trafndiaeth gyhoeddus (agosrwydd, amllder, capasiti a dibynadwyedd) a theithiau mewn ceir,
- Agosrwydd at gyfleusterau a gwasanaethau lleol megis banciau a siopau;
- Parcio ceir - nifer, defnydd tebygol a'r cyflenwad arfaethedig mewn perthynas â'r galw ac unrhyw faterion rheoli a ganfyddir;
- Parcio beiciau a chyfleusterau ar gyfer beicwyr - lleoliad, ansawdd a nifer manau parcio beiciau, loceri a lleoedd i newid;

- Cyfleusterau eraill ar y safle - gan gynnwys y rhai a allai leihau'r angen i deithio e.e. crèche, manau agored, siopau, blwch post ayb.
- Ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar ddewis teithio e.e. problemau tagfeydd presennol neu bryderon diogelwch y briffordd, argaeledd ceir a rennir, cyfleusterau golchi/ newid ayb.
- Cyfleusterau neu fentrau presennol i wrth-annog defnydd ceir/ annog teithio cynaliadwy i'r safle.

11.9. Dylai cynlluniau teithio ystyried sut y gall llwybrau a chyfleusterau trafndiaeth gael eu cynllunio i sicrhau lefelau uchel o ddiogelwch i ddefnyddwyr. Pan roddir ystyriaeth i ddiogelwch, mae'n debygol o arwain at fwy o ddefnydd. Gall Swyddogion Cynllunio Atal Troseddu'r Heddlu roi cyngor ar faterion dylunio.

Data Teithio Gwaelodlin

11.10. Mae'n rhaid i Gynlluniau Teithio gael data gwaelodlin / rhagdybiaethau am raglenni teithio presennol cyn y gall Cynllun Teithio dargedu mesurau priodol a monitro llwyddiant. Bydd argaeledd data gwaelodlin yn dibynnu ar y math o ddatblygiad a'r safle. Bydd Aseidiadau Trafnidiaeth yn cynnwys data gwaelodlin am dybiaethau teithio yn seiliedig ar fethodoleg sefydledig megis data TRICS sy'n cymharu cynigion/ safleoedd datblygu tebyg. Bydd data Cyfrifiad neu ddata arall sydd ar gael ar batrymau teithio i waith yn ddefnyddiol.



11.11. Ar gyfer Cynlluniau Teithio yn y gweithle, gall arolwg gweithwyr o sefydliadau presennol neu debyg ddarparu data gwaelodlin defnyddiol. Mae'r arolwg teithio i weithwyr yn offeryn hanfodol i sefydlu ymddygiad teithio presennol staff ac i ddatgelu agweddau a'r potensial i newid. Mae arolwg teithio yn offeryn cyfathrebu defnyddiol sy'n caniatáu i weithwyr a defnyddwyr cynlluniau teithio yn y dyfodol wybod bod cynllun teithio ar y gweill ac felly mae'n fan cychwyn ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â staff. Bydd arolwg teithio staff yn darparu gwaelodlin ar gyfer

sefydlu targedau cynllun teithio a hysbysu amcanion y cynllun teithio. Ceir enghreifftiau o holiadur busnes a chynllun teithio preswyl ynghlwm yn Atodiad 2.

11.12. Gallai'r wybodaeth a gasglwyd gynnwys:

- Pwyntiau tarddiad staff e.e. lleoliadau cartref, staff sy'n byw o fewn 5 milltir i'r safle;
- Canran/ nifer y staff sy'n teithio i'r gwaith mewn car;
- Canran/ nifer y staff sy'n teithio i'r gwaith trwy drafnidiaeth gyhoeddus;
- Canran y staff sy'n teithio i'r gwaith ar feic.

11.13. Pan fo'r cynllun teithio'n ymwneud â datblygiad newydd, ni fydd yn bosibl casglu data arolwg defnyddwyr presennol y safle. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen gosod gwaelodlin a thargedau penodol dros dro sy'n seiliedig ar ragfynegiadau unrhyw AT neu'n seiliedig ar ddata arolwg o fathau tebyg o ddatblygiad mewn lleoliadau tebyg. Fodd bynnag, dylid cynnal arolygon cynllun teithio o'r datblygiad newydd cyn gynted ag y bo modd yn dilyn meddiant llesiannol o'r datblygiad er mwyn galluogi gosod targedau cadarn a pherthnasol.

Amcanion, Dangosyddion a Thargedau

11.14. Dylai'r holl gynlluniau teithio gynnwys cyfres o amcanion sy'n amlinellu'r hyn y bydd y cynllun teithio yn ei gyflawni. Yn nodweddiadol, mae'r amcanion hyn yn ddatganiadau eang o fwriad sy'n darparu cyfeiriad a ffocws i'r cynllun teithio. Er enghraifft: "nod y Cynllun Teithio yw lleihau'r angen i deithio, lleihau'r defnydd cyffredinol o geir a chynyddu'r defnydd o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus".

11.15. Targedau yw'r nodau mesuradwy y bydd angen eu gosod er mwyn asesu a yw'r cynllun teithio wedi cyflawni ei amcanion ai peidio. Dylai targedau cynllun teithio gael eu seilio ar ganlyniadau'r arolygon a'r archwiliadau i sicrhau eu bod yn realistig ac yn gyraeddadwy. Er enghraifft: "Targedu gostyngiad o 20% mewn teithiau ceir o fewn 12 mis"

11.16. Pan fo meddiannydd safle yn anhysbys, neu ei fod yn hysbys ond yn newydd i'r ardal, dim ond ar ôl cynnal arolwg gwaelodlin y bydd modd gosod targedau. Dylid gosod targedau dros gyfnod o bum mlynedd ac yn ddelfrydol gyda thargedau dros dro yn ystod blwyddyn un a blwyddyn tri er mwyn gallu

mesur y cynnydd a gweithredu camau ychwanegol os oes angen. Ar gyfer datblygiadau mwy neu ddatblygiadau fesul cam, efallai y bydd angen cyfnod monitro estynedig ac efallai y bydd angen gosod targedau y tu hwnt i bum mlynedd, neu eu gwneud yn berthnasol i bob cam o'r datblygiad.

11.17. 11.16. Dylai pob targed a gynhwysir o fewn cynllun teithio fod yn uchelgeisiol ac yn **SMART** (**S**pecific, **M**easurable, **A**chievable, **R**elevant, **T**ime-bound):

- Penodol – mae angen iddo fod yn glir beth y mae'r targed yn bwriadu ei gyflawni.
- Mesuradwy – nid yw'n darged os na allwch fesur eich cynnydd tuag ato.
- Cyraeddadwy – dylai eich targedau fod yn uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy.
- Perthnasol – mae angen i'r targedau gael eu cysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau'r cynllun teithio.
- Cyfyngiad Amser – pryd fyddwch chi'n cwrdd â'ch targedau?

11.18. Gallai targedau fod yn 'nod', e.e. cynyddu canran y siwrneiau nad ydynt mewn ceir i'r gweithle o 10% neu yn 'weithrediad' e.e. penodi cydlynedd cynllun teithio. Dylid cynnwys targedau 'negyddol' a 'chadarnhaol', er enghraifft 'lleihau nifer teithiau gyrrwr yn unig' a 'chynyddu nifer y staff sy'n cerdded i'r gwaith'.

11.19. Mae'n ofynnol cael dangosyddion i fonitro pa mor dda y mae mesurau a mentrau'r cynllun teithio yn perfformio. Fe'u defnyddir i sefydlu a oes newid moddol yn digwydd a p'un a ellir cyflawni'r targedau a osodwyd ai peidio.

11.20. Mae'r canlynol yn rhai enghreifftiau o dargedau cynllun teithio:

- Cynyddu cyfran foddol y staff sy'n beicio i'r gwaith o 5% i 10% o fewn 2 flynedd i gwblhau'r datblygiad;
- Cyflwyno gwaith hyblyg a gweithio o gartref i bolisi'r cwmni o fewn 6 mis i feddiannu'r safle;
- Lleihau nifer y cerbydau 'gyrrwr yn unig' sy'n cyrraedd y safle o 20% o fewn 3 blynedd o'r arolwg gwaelodlin (i'w gynnal yn ystod gwanwyn 2018).


Mesurau Cynllun Teithio

- 11.21. Yr allwedd i gynllun teithio llwyddiannus yw nodi ystod o fesurau trafnidiaeth amgen sy'n fwy deniadol i ddefnyddwyr datblygiad na'r car preifat.
- 11.22. Dylai'r ystod o fesurau a fabwysiedir gael ei deilwra i anghenion penodol y datblygiad/ busnes a dylai fod yn seiliedig ar dystiolaeth sydd ar gael am ddefnyddwyr presennol neu rai i'r dyfodol. Er y dylai'r mesurau a gyflwynir dargedu'r meysydd hynny a nodwyd fel rhwystrau i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy e.e. cost tocynnau, ni ddylai hyn gyfyngu ar yr ystod o fesurau a gyflwynir.
- 11.23. Mewn llawer o achosion, mae mesurau cynllun teithio yn dilyn dull 'Abwyd a Ffon' ac yn anelu at annog teithio cynaliadwy nid yn unig trwy gynnig buddion neu gymhellion i ddefnyddwyr e.e. benthyciadau di-log am docynnau tymor trafnidiaeth gyhoeddus, ond hefyd trwy gyflwyno anghymhellion e.e. llai o fannau parcio ceir, neu godi tâl am barcio.
- 11.24. Hefyd mae mesurau cynllun teithio yn cael eu disgrifio'n aml fel mesurau 'caled' a 'meddal' gyda mesurau caled yn unrhyw seilwaith ffisegol y gellir ei ddylunio'i mewn i ddatblygiad e.e. llwybrau diogel a hygyrch, parcio beiciau a chawodydd, a mesurau meddal sy'n darparu gwybodaeth berthnasol neu arferion gweithredol e.e. benthyciadau tocyn tymor neu bolisiau gweithio hyblyg.

Mentrau Cynllun Teithio Posibl

- 11.25. Er y dylai mesurau fod yn bwrpasol a phriodol i'r safle a'r datblygiad penodol, mae'r rhestr ganlynol yn darparu rhai syniadau ar gyfer mentrau Cynllun Teithio:

Ffigwr 2: Mesurau Cyffredinol i Gynlluniau Teithio



11.26. Mae Atodiad 3 yn cynnwys ystod o enghreifftiau o fesurau cynllun teithio y gellid eu gweithredu ar gyfer gwahanol ddulliau trafnidiaeth a mentrau rheoli.

Marchnata a Hyrwyddo

11.27. Dylai darpar ddefnyddwyr cynllun teithio ddeall pam fod y cynllun teithio yn cael ei weithredu a'r mesurau sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ei amcanion. Mae codi ymwybyddiaeth a marchnata yn elfennau cefnogol pwysig i gynllun teithio, a gallant annog cyfranogiad yn y mentrau a'r mesurau sy'n cael eu datblygu.

11.28. Mae enghreifftiau o weithgareddau codi ymwybyddiaeth, marchnata a gwybodaeth yn cynnwys:

- Penodi a hyfforddi Cydlynnydd Cynllun Teithio;
- Sefydlu grŵp llywio cynllun teithio i rannu gwybodaeth, cydlynu gwelliannau ac ehangu perchnogaeth o'r cynllun teithio;
- Defnyddio grwpiau/ rhwydweithiau presennol i hysbysebu ac ehangu'r cynllun teithio;

- Argaeledd/ darparu gwybodaeth berthnasol i holl aelodau'r staff, trigolion ac ymwelwyr ar sut i gael mynediad i'r safle trwy ddulliau trafndiaeth gynaliadwy e.e. gwefan, mewnwyd, cylchlythyrau, hysbysfyrddau;
- Pecynnau gwybodaeth cynllun teithio i'r holl weithwyr/ trigolion/ cwsmeriaid newydd;



- Cyflwyno cylchlythyr cynllun teithio;
- Ymgyrchoedd i wrth-annog pobl i ddefnyddio ceir ac i annog cerdded a beicio;
- Cynnwys manteision teithio cynaliadwy yn y broses sefydlu staff newydd;
- Grwpiau ffocws a digwyddiadau ar gyfer staff presennol e.e. boreau coffi, cystadlaethau;
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol e.e. Wythnos Beicio i'r Gwaith;
- Hysbysebu llwyddiannau o fewn y sefydliad i gynnal momentwm ac i annog ymgysylltiad pellach.

Cydlynnydd Cynllun Teithio

11.29. Mae penodi cydlynnydd cynllun teithio yn gynnar yn y broses yn hanfodol er mwyn gweithredu'r cynllun teithio yn llwyddiannus. Bydd gan gydlynnydd y cynllun teithio gyfrifoldeb o ddydd i ddydd am bob mater sy'n ymwneud â rheoli a gweithredu'r cynllun teithio. Mae Atodiad 4 yn darparu gwybodaeth bellach am y tasgau a wneir yn gyffredinol gan gydlynnydd cynllun teithio.

Pwysigrwydd ymgysylltu'n eang â'r broses cynllunio teithio

11.30. Gall gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol, cymdogion a staff fod yn allweddol i gyflwyno cynllun teithio llwyddiannus. Gall ymuno mewn partneriaeth â hwy yn gynnar fod o fudd i'r ddwy ochr. Mae'n galluogi rhannu

profiadau a syniadau, cyfuno adnoddau a chymorth wrth ddatblygu a gweithredu'r cynllun teithio. Mae enghreifftiau o bartneriaethau posibl yn cynnwys gweithredwyr bysiau lleol, cymdeithasau preswylwyr a siambrau masnach.

- 11.31. Mae sefydlu grŵp llywio cynllun teithio yn elfen allweddol yn y broses cynllun teithio. Mae'n helpu i sicrhau yr ystyrir safbwyntiau ehangach ac mae'n cynorthwyo'r cydlynnydd cynllun teithio wrth ddatblygu a gweithredu'r cynllun teithio. Gall ffurfio grwpiau modd trafndiaeth fel grwpiau defnyddwyr beiciau, grwpiau gweithredu cerdded, grwpiau defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus a grwpiau defnyddwyr beiciau modur fod o gymorth hefyd.

Cynllun Gweithredu / Cyflenwi Cynllun Teithio

- 11.32. Mae'r cynllun gweithredu yn elfen allweddol o'r cynllun teithio a dylai fod yn grynodeb o raglen weithredu mesurau'r cynllun teithio a nodwyd dros dymor byr, canolig a hir y cynllun. Yn y bôn, y cynllun gweithredu yw'r rhaglen ar gyfer cyflwyno mesurau'r cynllun teithio ac mae'n fodd o gyfathrebu hyn i ddefnyddwyr y safle yn y pen draw.
- 11.33. Nodir y rhan fwyaf o gynlluniau gweithredu'r cynllun teithio ar ffurf tabl ac mae'n rhoi manylion clir o'r mesurau a nodwyd yn erbyn yr amcanion perthnasol, ynghyd â gwybodaeth ynghylch pryd y caiff y mesur ei weithredu neu ei gyflawni, pwy sy'n gyfrifol am ei gyflenwi, amcangyfrif o'r costau a sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro. Ceir enghreifftiau o elfennau cynllun gweithredu yn Atodiad 5.

Monitro ac Adolygu

- 11.34. Mae monitro yn elfen allweddol o unrhyw gynllun teithio ac fel arfer mae'n gyfrifoldeb cydlynnydd y cynllun teithio. Gall asesu p'un a yw'r mentrau'n cael yr effaith ddymunol ar ymddygiad teithio pobl. Hefyd mae'n hanfodol bod cynllun teithio'n cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn nodi unrhyw fethiant i gyflawni'r mesurau neu'r targedau a gytunwyd. Heb raglen fonitro gadarn a rheolaidd yn ei lle, bydd cynllun teithio yn dod yn ddogfen statig nad yw'n esblygu i fodloni amgylchiadau sy'n newid nac yn ymdrin ag anghenion y safle.

11.35. Dylai cynllun teithio gynnwys rhaglen fonitro glir a chryno sy'n rhoi manylion am yr hyn a gaiff ei arolygu, pa mor aml (gan gynnwys arolwg gwaelodlin), dros ba amserlen a phwy fydd yn gyfrifol am sut yr adroddir ar y wybodaeth hon. Efallai y bydd rhai elfennau o gynllun teithio yn fwy agored neu'n sensitif i newid nag eraill ac felly mae'n bosibl y bydd angen monitro mwy rheolaidd neu gael newidiadau mewn technegau monitro. Bydd y cyfnod o amser monitro ac amlder y monitro yn dibynnu ar natur a graddfa'r datblygiad, a dylid ei gytuno gyda'r datblygwr fel rhan o'r cynllun teithio. Fodd bynnag, fel canllaw cyffredinol, dylid cynnal arolwg cychwynnol ar ôl meddiant ac eto o fewn 6 mis yn dilyn meddiant, ac yna dylid darparu adroddiad monitro yn flynyddol am y 3 blynedd gyntaf.

11.36. Mae nifer o ddulliau o gasglu'r data y byddwch eu hangen i fonitro cynllun teithio; ymhlith y rhai mwy confensiynol ac a ddefnyddir amlaf, ceir:

- Holiaduron teithio wedi'u hanelu at staff, cwsmeriaid neu drigolion. Ceir arolygon enghreifftiol yn Atodiad 2.
- Cyfrifon cerbydau ar y safle.
- Archwiliadau teithio busnes sy'n edrych ar hawliadau milltiroedd, ceisiadau am docynnau trafndiaeth gyhoeddus, hawliadau milltiroedd beicio a phellteroedd teithio.
- Asesiad hygyrchedd - pa mor hygyrch yw eich safle i bob gwahanol ddull o drafnidiaeth?

11.37. O ran cynlluniau teithio a gytunwyd i gefnogi ceisiadau cynllunio, bydd y Cyngor angen adroddiadau monitro rheolaidd i ddangos bod y mesurau a'r mentrau a gynigir yn gweithredu'n llwyddiannus ac os nad ydynt, pa gamau sy'n cael eu cymryd i ymdrin ag unrhyw broblemau a gafwyd.

11.38. Fel gofyniad sylfaenol, dylai adroddiadau monitro gynnwys yr elfennau canlynol:

- Manylion am y cynnydd a wnaed ers cyflwyno'r cais cynllunio neu'r adroddiad monitro blaenorol, gan gynnwys manylion y newidiadau sydd wedi'u gwneud sy'n arwyddocaol i weithrediad y cynllun teithio;
- Asesiad cyffredinol o ganlyniadau'r arolwg teithio a monitro arall megis cyfrifon cerbydau ayb.
- Asesiad o p'un a yw targedau'r cynllun teithio yn cael eu bodloni neu ar y ffordd i gael eu bodloni;

- Unrhyw ddiwygiadau a wnaed i'r targedau teithio a p'un a oes unrhyw fesurau adfer wedi eu cyflwyno/ eu gweithredu;
- Camau sy'n edrych ymlaen, y dylid eu nodi'n eglur yng nghynllun gweithredu'r cynllun teithio.

11.39. Fel arfer, dylid cyflwyno canlyniadau monitro i'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn adroddiad monitro blynyddol. Dylai'r adroddiad monitro gynnwys:

- Camau a gyflawnwyd hyd yn hyn - Dylid darparu crynodeb o'r holl gamau gweithredu a gyflawnwyd i gwrdd ag amcanion y cynllun teithio.
- Canlyniadau'r arolygon - Dylid cyflwyno canlyniadau'r arolygon fel niferoedd absoliwt yn hytrach na chanrannau, dylid darparu gwybodaeth ychwanegol am y wefan hefyd. Ar y lleiaf, dylai hyn fod y nifer y bobl sydd ar y safle a'r nifer sy'n parcio.
- Cynllun gweithredu - Dylai hwn nodi sut y bydd y cynllun teithio yn cael ei gyflwyno er mwyn cwrdd â'i amcanion a'i dargedau.

12. Rhagor o Gyngor a Chysylltiadau

- 12.1. Gellir rhagor o gyngor ar bob agwedd ar y canllawiau hyn o adrannau Cynllunio, Diogelwch Ffyrdd a Phrifyrdd y Cyngor (gweler isod).

Swyddog Dyletswydd

Rheoli Datblygu

Swyddfa'r Doc

Dociau'r Barri

Y Barri

CF63 4RT

Ffôn: (01446) 704681

E-bost: planning@bromorgannwg.gov.uk

Prif Swyddog Trafnidiaeth a Diogelwch ar y Ffyrdd

Gwasanaethau Gweladwy a Swyddfa Drafnidiaeth

Depo'r Alpau

Quarry Road

Gwenfô

CF5 6AA

E-bost: roadsafety@bromorgannwg.gov.uk

Ffôn: 02920 704768

Prif Beiriannydd - Datblygu Priffyrdd

Gwasanaethau Priffyrdd a Pheirianeg

Depo'r Alpau

Quarry Road

Gwenfô

CF5 6AA

E-bost: highwaydevelopment@bromorgannwg.gov.uk

Ffôn: 02920 673081

13. Rhagor o Ganllawiau a Gwybodaeth

- Gwefan Llywodraeth Cymru:
 - Gwefan Cynllunio Teithio Llywodraeth Cymru:
<https://gov.wales/topics/businessandconomy/creating-a-sustainable-economy/travel-planning/?skip=1&lang=cy>
- Gwefan yr Adran Drafnidiaeth:
<http://www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/travelplans/>
- Canllawiau Arfer Da: Cyflawni Cynlluniau Teithio drwy'r Broses Gynllunio (2009) (archif)
<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20101007163049/http://www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/travelplans/tpp/>
- Gwybodaeth benodol ar gyfer cynlluniau teithio preswyl ar gael yn:
<http://www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/travelplans/rpt/>
- Gwybodaeth benodol ar gyfer cynlluniau teithio gweithle ar gael yn:
<http://www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/travelplans/work/>
- Gwybodaeth am gynlluniau teithio ysgol ar gael yn:
<http://www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/schooltravel/>
- Gwefan Sustrans:
<https://www.sustrans.org.uk/our-services/our-expertise/workplace-travel-planning>
- Gwefan Traveline Cymru:
<http://www.traveline-cymru.info/>

14. Atodiadau

14.1. Atodiad 1: Amcanion a Pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol perthnasol

Amcan 1: Cynnal a symud ymlaen ddatblygiad cymunedau cynaliadwy ym Mro Morgannwg, gan gynnig cyfleoedd i fyw, dysgu, gweithio a chymdeithasu i bawb.

Amcan 2: Sicrhau bod datblygiad ym Mro Morgannwg yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at leihau effaith newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau andwyol.

Amcan 3: Lleihau'r angen i drigolion Bro Morgannwg deithio i ddiwallu eu hanghenion dyddiol a'u galluogi i gael gwell mynediad at fathau cynaliadwy o drafnidiaeth.

POLISI SP1 - CYFLENWI'R STRATEGAETH

Bydd y strategaeth yn ceisio gwella'r amgylchedd byw a gweithio, hyrwyddo mwynhad o'r cefn gwlad a'r arfordir, a rheoli asedau amgylcheddol pwysig. Cyflawnir hyn trwy:

1. Ddarparu amrywiaeth a dewis o dai i ddiwallu anghenion pob sector o'r gymuned;
2. Hyrwyddo ystod o safleoedd cyflogaeth a fwriadwyd i ddiwallu anghenion Bro Morgannwg a'r brifddinas-ranbarth ehangach;
3. Atgyfnerthu rôl y Barri, aneddiadau canolfannau gwasanaeth ac aneddiadau cynradd fel darparwyr gwasanaethau diwylliannol, masnachol a chymunedol;
4. Hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy;
5. Cyflawni seilwaith allweddol sy'n gysylltiedig ag effeithiau datblygiad;
6. Amddiffyn a gwella'r amgylchedd adeiledig, naturiol ac arfordirol;
7. Hyrwyddo cyfleoedd i dwristiaeth a hamdden gynaliadwy; a
8. Ffafrio datblygiadau sy'n hyrwyddo byw'n iach.

POLISI SP7 – TRAFNIDIAETH

Ffefrir gwelliannau trafndiaeth gynaliadwy sy'n gwasanaethu anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Bro Morgannwg ac sy'n

hyrwyddo amcanion cynllun trafndiaeth rhanbarthol De-ddwyrain Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol. Y prif flaenoriaethau ar gyfer darparu seilwaith trafndiaeth strategol fydd:

1. Ffordd gyswllt newydd i Ynys y Barri;
2. Ffordd fynediad ogleddol newydd yn ardal fenter Sain Tathan;
3. Gwelliannau i'r A4226 rhwng Waycock Cross, Y Barri a Sycamore Cross, A48 (Five Mile Lane);
4. Gwelliannau i'r B4265 yn Gileston - Old Mill;
5. Moderneiddio cledrau'r cymoedd;
6. Llwybr rhwydwaith beicio cenedlaethol 88; #;
7. Llwybrau beicio yn:
 - A4050 Cwrlwys i Faes Awyr Caerdydd;
 - A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-bont ar Ogwr drwy'r Bont-faen; a
 - Glan y Dŵr Y Barri i Ddinas Powys
8. Parcio a theithio bws yn Cosmeston, Penarth
9. Mesurau blaenoriaeth bws yn:
 - A4050 Cwrlwys i Faes Awyr Caerdydd;
 - A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-bont ar Ogwr drwy'r Bont-faen;
 - Merrie Harrier Cardiff Road Y Barri i Gaerdydd trwy Barry Road;
 - Leckwith Road, Llandochoau i Gaerdydd; a
 - Lavernock Road i Gaerdydd drwy'r morglawdd

Rhoddir blaenoriaeth hefyd i gynlluniau sy'n gwella diogelwch a hygyrchedd y briffordd, trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.

Bydd angen i bob datblygiad newydd sy'n cael effaith uniongyrchol ar y seilwaith trafndiaeth strategol ddarparu gwelliannau priodol i'r rhwydwaith.

Mae llwybr NCN 88 a ddangosir ar fap cynigion y CDLI yn ddangosol ac yn ddarostyngedig i waith dichonoldeb manwl pellach oni nodir fel arall fel llwybrau a gadarnhawyd.

POLISI MD1 – LLEOLIAD DATBLYGIADAU NEWYDD

Dylai datblygiadau newydd ar safleoedd heb eu dyrannu:

1. Beidio â chael effaith annerbyniol ar gefn gwlad;

2. Atgyfnerthu rôl a swyddogaeth anheddle allweddol Y Barri, aneddiadau canolfannau gwasanaeth, aneddiadau sylfaenol neu aneddiadau gwledig bach fel darparwyr allweddol cyfleusterau masnachol, cymunedol a gofal iechyd;
3. Lle bo'n briodol hyrwyddo mentrau newydd, twristiaeth, hamdden a chyfleusterau cymunedol ym Mro Morgannwg;
4. Yn achos datblygiad preswyl, cefnogi'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd o angen a nodwyd;
5. Cael mynediad at neu hyrwyddo'r defnydd o ddulliau trafndiaeth gynaliadwy;
6. Manteisio ar y ddarpariaeth seilwaith bresennol neu lle bo angen gwneud darpariaeth ar gyfer seilwaith newydd heb unrhyw effaith annerbyniol ar yr amgylchedd naturiol neu adeiledig;
7. Lle bo modd, hyrwyddo adeiladu cynaliadwy a gwneud defnydd buddiol o dir ac adeiladau a ddatblygwyd yn flaenorol;
8. Darparu cyd-destun cadarnhaol ar gyfer rheoli'r amgylchedd dŵr trwy osgoi ardaloedd o berygl llifogydd yn unol â'r dull dilyniannol a nodir yn y polisi cenedlaethol a diogelu adnoddau dŵr; a
9. Peidio â chael unrhyw effaith annerbyniol ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

POLISI MD2 – DYLUNIAD DATBLYGIAD NEWYDD

Er mwyn creu lleoedd o ansawdd uchel, iach, cynaliadwy a hynod yn lleol, dylai cynigion datblygu:

1. Fod o safon uchel o ddyluniad sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun a chymeriad yr amgylchedd naturiol ac adeiledig o gwmpas ac yn diogelu nodweddion presennol y drefwedd neu ddiddordeb tirwedd;
2. Ymateb yn briodol i gyd-destun lleol a chymeriad adeiladau cyfagos a defnyddiau o ran defnydd, math, ffurf, graddfa, cymysgedd a dwysedd;
3. Lle bo'n briodol, darparu ardaloedd newydd o dir y cyhoedd yn arbennig mewn lleoliadau allweddol megis canol trefi, prif lwybrau a chyffyrdd;
4. Hyrwyddo creu amgylcheddau iach a gweithgar a lleihau'r cyfle ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn achos canolfannau manwerthu, dylai datblygiadau ddarparu blaenau stryd gweithredol i greu amgylcheddau trefol deniadol a diogel;
5. Darparu amgylchedd diogel a hygyrch i bob defnyddiwr, gan roi blaenoriaeth i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus;
6. Peidio â chael unrhyw effaith annerbyniol ar ddiogelwch y ffordd nac achosi neu waethygu'r tagfeydd traffig presennol i raddau annerbyniol;

7. Lle bo hynny'n briodol, gwarchod a gwella ansawdd, a mynediad at fannau agored presennol a chyfleusterau cymunedol;
8. Diogelu amwynder cyhoeddus a phreswyl presennol, yn enwedig mewn perthynas â phreifatrwydd, edrych drosodd, diogelwch, sŵn ac aflonyddwch;
9. Darparu mannau cyhoeddus, gofod amwynderau preifat, a pharcio ceir yn unol â safonau'r cyngor;
10. Ymgorffori tirlunio sensitif, gan gynnwys cadw a gwella, lle mae hynny'n briodol, y nodweddion tirwedd presennol a buddiannau bioamrywiaeth;
11. Darparu cyfleusterau a lle digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff ac archwilio cyfleoedd i ymgorffori deunyddiau neu gynhyrchion wedi'u hailddefnyddio neu eu hailgylchu mewn adeiladau neu strwythurau newydd; a
12. Lliniaru achosion o newid yn yr hinsawdd trwy leihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr eraill sy'n gysylltiedig â'u dyluniad, adeiladwaith, defnydd a'u dymchweliad yn y pen draw, a chynnwys nodweddion sy'n rhoi addasiad effeithiol ac yn gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd bresennol ac i'r dyfodol.

POLISI MD4 - SEILWAITH CYMUNEDOL A RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO

Lle bo'n briodol ac o ystyried hyfywedd y datblygiad, bydd y cyngor yn ceisio sicrhau seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd a gwell sy'n briodol i raddfa, math a lleoliad y datblygiadau arfaethedig trwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio. Gall seilwaith cymunedol gynnwys darparu neu wella:

1. Tai fforddiadwy;
2. Cyfleusterau addysgol;
3. Seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth ar gyfer cerddwyr, beicwyr, trafnidiaeth gyhoeddus a thraffig cerbydau;
4. Man agored cyhoeddus, celf gyhoeddus, hamdden, chwaraeon a chyfleusterau hamdden;
5. Cyfleusterau cymunedol;
6. Cyfleusterau gofal iechyd;
7. Seilwaith gwasanaeth a chyfleustodau;
8. Gwarchod a gwella'r amgylchedd fel cadwraeth natur, atal llifogydd, adfywio canol trefi, rheoli llygredd neu adnewyddu hanesyddol;
9. Cyfleusterau ailgylchu a gwastraff; a
10. Cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau cyflenwol gan gynnwys hyfforddiant.

Polisi MG2 - Dyraniadau Tai - Dyrannu 48 o safleoedd tai i gwrdd â'r gofyniad preswyl a nodir ym Mholisi SP3.

Polisi MG9 – Dyraniadau Cyflogaeth - Dyrannu 11 o safleoedd cyflogaeth i ddiwallu'r angen cyflogaeth a nodir ym Mholisi SP5.

14.2. Atodiad 2: Sampl Holiadur Cynllun Teithio Staff

Bwriedir hwn fel enghraifft yn unig. Dylai pob safle baratoi arolwg teithio i waith wedi'i deilwra'n unigol er mwyn cael y wybodaeth deithio fwyaf perthnasol.

Enghraifft o Holiadur Arolwg Teithio Staff

Cynhelir arolwg o'r holl staff i holi am eu dulliau cymudo a theithio i'r gwaith. Defnyddir y data i ddatblygu a hyrwyddo mesurau i wella teithio sy'n gysylltiedig â'r gwaith i bob gweithiwr. Ni chaiff gwybodaeth unigol ei hamlygu. Ticiwch y cylchoedd.

1. Nodwch god post eich cartref

--	--	--	--	--	--

2. A oes gennych anabledd sy'n effeithio ar eich trefniadau teithio?

- Oes 01
- Nac oes 02

3. Sut rydych chi'n teithio i'r gwaith gan amlaf?

- Bws 01
- Beic 02
- Trên 03
- Cerdded 04
- Car ar eich pen eich hun 05
- Car gyda rhywun arall 06
- Beic modur 07
- Arall 08

4. Pa mor bell rydych chi'n teithio i'r gwaith?

..... milltir

5. Pa rai o'r canlynol a fyddai'n eich annog i feicio i'r gwaith? Ticiwch y rhestr yn ôl ei threfn.

- Llwybrau beicio gwell 01
- Lle parcio beiciau gwell yn y gwaith 02
- Cyfleusterau newid/cawod gwell 03
- Os byddaf yn dod o hyd i ffordd arall o wneud pethau fel siopa/gollwng y plant ar y ffordd i'r gwaith 04
- Gostyngiad ar feiciau ac ategolion 05
- Grŵp defnyddwyr beiciau yn y gwaith 06
- Os darperir trafndiaeth at ddiben teithio yn ystod y gwaith 07
- Pan fo rhaid i mi dalu am barcio 08
- Benthyciad di-log 09
- Dim byd 10
- Arall 11

6. Pa rai o'r canlynol a fyddai'n eich annog i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus? Rhestrwch yn ôl eu trefn

- Llwybrau bysus mwy uniongyrchol 01
- Gwasanaeth bws amlach 02
- Gwasanaeth bws mwy dibynadwy 03

- Cyfleusterau gwell mewn arosfannau bysus 04
- Os yw'r cysylltiadau rhwng yr orsaf fysus/orsaf drenau'n well 05
- Trenau mwy dibynadwy 06
- Tocynnau ar ostyngiad ar gael yn y gwaith 07
- Trenau amlach 08
- Gwybodaeth glir am drafnidiaeth gyhoeddus yn y gwaith 09
- Os darperir trafnidiaeth at ddiben teithio yn ystod y gwaith 10
- Os byddaf yn dod o hyd i ffordd arall o wneud pethau fel siopa/gollwng y plant ar y ffordd i'r gwaith 11
- Dim byd 12
- Arall 13

7. Pa rai o'r canlynol a fyddai'n eich annog i gymryd rhan mewn cynllun rhannu ceir wedi'i drefnu? Rhestrwch yn ôl eu trefn.

- Cronfa ddata gyfrinachol o bobl y gellid rhannu â nhw 01
- Tacsï adref am ddim mewn argyfwng 02
- Lle ar gadw mewn maes parcïo 03
- Os bydd rhaid i mi dalu am barcïo 04
- Os darperir trafnidiaeth at ddiben teithio yn ystod y gwaith 05
- Os byddaf yn dod o hyd i ffordd arall o wneud pethau fel siopa/gollwng y plant ar y ffordd i'r gwaith 06
- Dim byd 07
- Arall 08

8. Petai'r cyfarpar cywir gennych, fydddech chi'n gweithio gartref?

- Byddwn, yn rheolaidd 01

- Byddwn, bob hyn a hyn 02
- Na fyddwn, dim o gwbl 03

9. Pa mor aml rydych chi'n defnyddio cerbyd at ddibenion gwaith?

- Byth 01
- Mwy nag unwaith y dydd 02
- Un/dau ddiwrnod yr wythnos 03
- Tri neu bedwar diwrnod yr wythnos 04
- Unwaith neu ddwywaith y mis 05

10. Ble rydych chi'n parcïo fel arfer i fynd i'r gwaith?

- Yn y gweithle 01
- Ar stryd gerllaw 02
- Maes parcïo masnachol 03
- Safle parcïo a theithio 04

11. Ydych chi'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau gwaith?

- Ydw 01
- Nac ydw 02

12. Petai ceir/beiciau cronfa ar gael ar gyfer teithiau gwaith, fydddech chi'n defnyddio un?

- Byddwn 01
- Na fyddwn 02

Caiff data o'r arolwg hwn ei ddefnyddio i helpu wrth ddatblygu'r Cynllun Teithio. Gall data cryno nad yw'n cynnwys manylion personol hefyd gael ei rannu â darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus at ddiben gwella gwasanaethau yn unig.

Nid wy'n cydsynio i ddata gael ei ddefnyddio fel a nodir uchod

Diolch am roi o'ch amser i gwblhau'r holiadur hwn.

Os hoffech chi gael eich cynnwys yn y raffl, nodwch eich enw a'ch adran yma. Caiff y slip hwn ei ddefnyddio at ddibenion y raffl yn unig.

Enw: _____

Rhif Ffôn: _____

Enghraifft o Arolwg Cynllun Teithio Preswyl/ Holiadur

Dylai cynlluniau teithio preswyl gynnwys holiadur a ddefnyddir fel arolwg gwaelodlin i hysbysu'r broses o fonitro'r Cynllun Teithio. Gweler isod enghraifft o arolwg cynllun teithio preswyl (Ffynhonnell: Go Surveys).

Arolwg Teithio Enghreifftiol i Breswylwyr

Lluniwyd yr holiadur hwn fel rhan o rwymedigaethau cynllunio'r datblygwyr i'r cyngor lleol a bodloni ymrwymiad y datblygwyr i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dewisiadau teithio i breswylwyr eu safleoedd

Mae'r holl wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn ddiennw. Diolch am eich cydweithrediad.

1. **Cod post llawn y cartref**.....

2. **Sawl oedolyn a phlentyn sydd yn yr aelwyd?**

Oedolion

Plant

3. **Oes gan rywun yn eich aelwyd anabledd sy'n effeithio ar eich trefniadau teithio?**

Oes

Nac oes

4. **Os ydych chi yn y gwaith, sut rydych chi'n teithio i'r gwaith fel arfer? (Ticiwch flwch ar gyfer pob oedolyn yn yr aelwyd)**

Bws

Beic

Gyrrwr car (ar eich pen eich hun)

Gyrrwr car (gyda theithiwr)

Teithiwr mewn car

Cerdded

Beic modur/moped/sgwter

Trên

Gweithio gartref

Arall (nodwch)

5. Os ydych chi'n gyrru l'r Gwaith, beth yw eich prif reswm dros ddewis y dull hwn o drafnidiaeth? (Ticiwch flwch ar gyfer pob oedolyn yn yr aelwyd sy'n gyrru i'r gwaith)

- Dim dewis arall
- Mae'n gyfleus
- Mae'r car yn hanfodol i wneud y swydd
- Gollwng/colli plant
- Arall (nodwch)

6. Pa rai o'r canlynol rydych chi'n eu defnyddio o dro i dro yn lle eich dull arferol o drafnidiaeth i'r gwaith? (Ticiwch flwch ar gyfer pob oedolyn yn yr aelwyd)

- Bws
- Beic
- Gyrrwr car (ar eich pen eich hun)
- Gyrrwr car (gyda theithiwr)
- Teithiwr mewn car
- Cerdded
- Beic modur/moped/sgwter
- Trên
- Gweithio gartref
- Arall (nodwch)
- Nid yn defnyddio dewis arall

7. Os ydych fel arfer yn defnyddio'ch car ar gyfer teithio, a oes unrhyw beth a fyddai'n eich annog i ddefnyddio dulliau o drafnidiaeth cynaliadwy?

- Mwy o wybodaeth am ddewisiadau cynaliadwy
- Gwelliannau i wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus
- Treialu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus ar ostyngiad/am ddim
- Dim byd
- Arall (nodwch)

8. Os yw eich plant o oedran ysgol, sut maen nhw'n teithio i'r ysgol ac yn ôl fel arfer? (Os yw hyn yn amrywio yn ôl y plentyn, ticiwch res ar gyfer pob plentyn)

- Bws - Cyhoeddus
- Bws - Preifat
- Beic
- Fel teithiwr yn eich car chi
- Fel teithiwr yng nghar rhywun arall
- Cerdded

Trên □□□□
Taksi □□□□
Arall (nodwch) □□□□.....

9. Ydych chi'n ymwybodol o'r dulliau canlynol o drafnidiaeth gynaliadwy yn yr ardal?

	Ydw / Nac ydw	
Cronfeydd data rhannu ceir LiftShare/RhannuCymru	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus 'cysylltiadau gwyrdd'	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Llwybrau beicio lleol/cenedlaethol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

10. Oes gennych chi unrhyw sylwadau am sut rydych chi'n teithio rhwng eich cartref a'r safle?

14.3. Atodiad 3: Mesurau Cynlluniau Teithio ar gyfer gwahanol ddulliau trafndiaeth

Cerdded / Beicio

- Hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio diogel a darparu mapiau llwybrau;
- Gwelliannau a chynnal y rhwydwaith cerdded a beicio lleol yn enwedig unrhyw lwybrau strategol e.e. goleuadau, cyrbiau isel, palmentydd botymog, manau croesi diogel;
- Darparu gwybodaeth am ddiogelwch cyffredinol ac ymwybyddiaeth o ddillad, diogelwch beiciau, manteision iechyd;
- Cyflwyno cymhellion ariannol megis cymhellion treth ar brynu beiciau;
- Darparu cyfleusterau ar y safle mewn lleoliadau sy'n annog a chefnogi cerdded a beicio e.e. cyfleusterau newid i staff sydd wedi'u lleoli yn gyfleus, cawodydd, ystafelloedd sychu, loceri a manau parcio beiciau diogel;
- Gwell diogelwch ar y safle yn enwedig manau parcio beiciau, llwybrau cerdded ayb;
- Gweithredu digwyddiadau rheolaidd i annog cerdded a beicio e.e. teithiau cerdded amser cinio neu ddiwyddiadau beicio;
- Darparu beiciau i breswylwyr neu rannu beiciau ar gyfer teithiau gwaith byrrach neu ymarfer amser cinio;
- Darparu offer e.e. dillad adlewyrchol/ gweledd uchel neu strapiau, ymbarél a larymau personol;
- Cynllun safle wedi'i ddylunio neu ei wella i annog a gwneud y mwyaf posibl o gerdded a beicio, gan alluogi llwybrau diogel, uniongyrchol o fewn safleoedd â phwyntiau mynediad da i wasanaethau lleol e.e. arosfannau bysiau.

Trafnidiaeth gyhoeddus

- Darparu gwybodaeth gyfoes a chywir am y gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus sydd ar gael yng nghyffiniau'r safle, gan gynnwys mapiau, amserlenni a gwybodaeth am wasanaethau;
- Cydweithio a lle bo'n briodol rhoi cefnogaeth i ddarparwyr gwasanaethau lleol wella a/neu ddiwygio gwasanaethau a thrafod gostyngiadau tocynnau;
- Integreiddio cyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus ar y safle (os yn bosibl ac yn briodol) e.e. arosfannau bysiau/ llochesi a chyrbiau uwch;

- Darparu tocynnau trafndiaeth gyhoeddus neu fenthyciadau di-log neu gost isel i brynu tocynnau tymor trafndiaeth gyhoeddus;
- Llwybrau gwell i gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus;
- Taith warantedig gartref i staff mewn argyfwng;
- Darparu bysiau gwennol gwaith;
- Casglu o orsafoedd lleol i ymwelwyr busnes.

Rhannu Ceir

- Cyflwyno cynllun rhannu ceir ynghyd â chymorth gweithredol e.e. bwrdd hysbysebu rhannu ceir, gwefan rhannu ceir, boreau coffi rhannu ceir i gyflwyno darparwyr ceir posibl i'w gilydd;
- Mannau rhannu ceir ffafriol yn nes at brif fynedfa'r busnes;
- Galluogi newidiadau mewn patrymau shifft neu waith (os yn briodol) i alluogi rhannu ceir;
- Taith warantedig gartref neu dacsï i staff mewn argyfwng.

Defnyddio Cerbydau

- Ystyried diwygio polisi ceir cwmni a chyflwyno mesurau mwy cynaliadwy e.e. darparu cymhellion arian parod fel dewis arall i gar cwmni neu ddarparu tocynnau tymor trafndiaeth gyhoeddus;
- Cyflwyno rhannu ceir cynaliadwy e.e. cerbydau hybrid neu drydan bach, ar gyfer staff y mae angen iddynt deithio at ddibenion gwaith neu asesu cynaliadwyedd ceir a rennir cyfredol a newid os oes angen;
- Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan;
- Asesu cynaliadwyedd cerbydau fflyd cyfredol a newid os oes angen e.e. faniau cyflenwi;
- Ystyried fflyd cerbydau cyflenwyr a cheisio dylanwadu ar ddulliau mwy cynaliadwy os yw'n briodol;
- Ymgysylltu â chwmnïau tacsï lleol a chyflwyno teithio tacsï fel dewis arall i'r car preifat ar gyfer teithiau busnes.
- Lleihau'r ddarpariaeth parcio ceir ar y safle;
- Datrysiadau rheoli traffig i ddad-flaenoriaethu ceir ar y rhwydwaith priffyrdd.

Rheoli Meysydd Parcio

- Dyrannu lleoedd parcio blaenoriaeth i'r rhai sy'n rhannu ceir;

- Adolygu'r ffordd y caiff trwyddedau parcio eu dosbarthu i sicrhau system deg yn seiliedig ar feini prawf cytunedig e.e. angen gweithredol y sefydliad yn hytrach na hynafedd staff;
- Ystyried cyflwyno taliadau parcio ceir.
- Cynlluniau atal a rheoli parcio ceir e.e. dim manau penodol i reolwyr - arwain trwy esiampl.

Lleihau'r angen i deithio / Arferion gweithio amgen

- Datblygu strategaeth leol i recriwtio staff;
- Mabwysiadu arferion gweithio smart e.e. fideo-gynadledda, i gael gwared ar yr angen i deithio i gyfarfodydd;
- Hwyluso ac annog gweithio gartref;
- Cyflwyno oriau gwaith hyblyg, teleweithio, gwaith yn y cartref a fideo-gynadledda;
- Cyflwyno wythnos waith gywasgedig;
- Ymchwilio i waith lloeren (sefydliadau mwy) i alluogi staff i weithio'n nes at eu cartrefi;
- Darparu cyfleusterau ar y safle i leihau'r angen i deithio e.e. crèche, ffreutur;
- Cydlynu cyflenwadau a chyrchu deunyddiau ac offer lleol.

14.4. Atodiad 4: Cyfrifoldebau Cydlynnydd Cynlluniau Teithio

Er mwyn i'r cynllun teithio fod yn llwyddiannus yn y pen draw, mae'n hanfodol bod person yn cael ei benodi'n gydlynnydd cynllun teithio i gymryd cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun teithio a'r mesurau a'r mentrau y mae'n eu cynnwys. Bydd rôl a chyfrifoldebau'r cydlynnydd cynllun teithio yn amrywio, gan ddibynnu ar natur a maint y sefydliad y maent yn gweithredu ynddo. Er y bydd rôl a chyfrifoldebau'r cydlynnydd cynllun teithio felly'n benodol i'r sefydliad a/neu ddatblygiad, byddant fel arfer yn cynnwys rhai o'r elfennau canlynol neu'r cyfan o'r canlynol:

- I arwain y gwaith o weithredu a datblygu'r cynllun teithio.
- Bod yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n manteisio ar drafnidiaeth gynaliadwy.
- Gweithredu a hyrwyddo cynlluniau sy'n ceisio lleihau'r defnydd o'r car preifat ar gyfer cymudo a milltiroedd busnes.
- Trefnu a hyrwyddo digwyddiadau cyhoeddusrwydd ac ymwybyddiaeth sy'n gysylltiedig â'r cynllun teithio yn y gweithle, fel sy'n briodol. Er enghraifft, diwrnodau beicio i'r gwaith.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt yn y sefydliad ar gyfer unrhyw un sydd angen cyngor neu wybodaeth am drafnidiaeth.
- I gasglu gwybodaeth am sut mae staff a chwsmeriaid yn teithio i safleoedd y cwmni ar hyn o bryd ac adrodd yn ôl yr angen.
- Cynnal arolygon teithio i ganfod pam fod pobl yn teithio'r ffordd y maent yn ei wneud, a'r hyn y gallai'r cwmni ei wneud i'w galluogi i newid i drafnidiaeth gynaliadwy.
- Monitro cynnydd y Cynllun Teithio tuag at ei dargedau a gweithredu lle bo'n briodol er mwyn sicrhau bod y targedau'n cael eu bodloni.
- Cysylltu ag uwch reolwyr i sicrhau cefnogaeth a chyllid ar gyfer y cynllun.
- Sefydlu, hwyluso a chydlynu grwpiau llywio a/neu weithredu perthnasol, e.e. grŵp defnyddwyr beiciau.
- Gweithio gydag uwch reolwyr, staff y cwmni/ cwsmeriaid a'r rheolwyr maes parcio neu gontractwr diogelwch i lunio a gweithredu strategaeth rheoli maes parcio cynhwysfawr.
- Bod yn bwynt cyswllt i'r cwmni ar gyfer sefydliadau/ asiantaethau allanol ac i gyflenwi gwybodaeth am gynlluniau teithio fel adroddiadau monitro a chynlluniau gweithredu pan fo angen.
- Gweithio mewn partneriaeth â busnesau cyfagos er mwyn sefydlu a datrys materion trafnidiaeth gynaliadwy leol.
- Bod yn gyfrifol am ddiweddarau'r ddogfen Cynllun Teithio, gan gynnwys y cynllun gweithredu a'r adroddiadau monitro.


- Gweithio i wella cyfleusterau ar y safle i'r rheini sy'n dewis dod trwy drafnidiaeth gynaliadwy, er enghraifft cynyddu'r storfa beiciau.
- I ddiweddarau materion a mentrau newydd sy'n effeithio ar drafnidiaeth gynaliadwy.
- Datblygu'r Cynllun Gweithredu teithio i hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, rhannu ceir, dewisiadau technolegol amgen i deithio, arferion gweithio hyblyg a theithio busnes/ fflyd mwy gynaliadwy (lle bo hynny'n berthnasol);
- Cyflwyno achos busnes ar gyfer y cynllun teithio, gan wneud yr achos i ymgymryd â'r gwaith hwn;
- Dylunio strategaethau cyfathrebu/ marchnata i hyrwyddo Cynllun Teithio eich sefydliad;
- Cysylltu ag Adrannau a rhanddeiliaid mewnol - e.e. cyfleusterau, adnoddau dynol, cyllid, cyfathrebu, timau gwyrdd, TG;
- Mynychu sesiynau cyflwyno staff newydd;
- Trefnu a chydlynu digwyddiadau yn y Cynllun Gweithredu teithio;
- Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer rhanddeiliaid allanol;
- Datblygu polisiâu perthnasol ar y cyd ag adnoddau dynol/cyfleusterau/ TG ayb e.e. polisi rhannu ceir, lwfansau milltiroedd teithio busnes, polisi gweithio o gartref, polisi trwydded parcio;
- Monitro dangosyddion perthnasol a diweddarau'r Cynllun Gweithredu yn ôl yr angen;
- Cynnal grwpiau ffocws staff ar faterion penodol wrth iddynt godi;
- Hybu'r Cynllun Teithio yn barhaus; a
- Hysbysu llwyddiant ac adrodd i randdeiliaid.


14.5. Atodiad 5: Enghreifftiau o Bwyntiau Gweithredu Cynllun Teithio

Cerdded					
Mesurau meddal					
Mesur	Cyfrifoldeb	Amserlen	Targed	Cost	Nodiadau
Hyrwyddo cerdded trwy ddiwyddiadau ar y safle a theithiau cerdded amser cinio	Cydlynedd Cynllun Teithio	Cyfredol - parhaus	1 taith gerdded y mis	Bychan iawn	
Prynu offer diogelwch i annog cerdded	Cydlynedd Cynllun Teithio	Cyfredol - parhaus		Isel	
Mesurau caled					
Gwella goleuadau a diogelwch ar y safle	Rheolwr cyfleusterau ar y safle/Cydlynedd Cynllun Teithio	Cyfredol - parhaus	Gwelliant parhaus i'r safle	Canolig	Ymgorffori mewn rhaglen barhaus ar gyfer cynnal a chadw tir yn y tymor hir.
Gwella pwyntiau mynediad i gerddwyr e.e. llwybr cerdded	Rheolwr cyfleusterau ar y safle/TPC	Erbyn diwedd 2018	Cwblhau'r cynllun	Canolig	Efallai y bydd angen caniatâd allanol
Beicio					
Mesurau meddal					
Trefnu sesiynau hyfforddi beicio a chynnal beiciau	Cydlynedd Cynllun Teithio	Ar unwaith/parhaus	Bob 6 mis	Isel	
Darparu offer diogelwch beicio e.e. bandiau/ gilets adlewyrchol	Cydlynedd Cynllun Teithio	Ar unwaith/parhaus		Isel	Ymchwilio i noddwr.
Mesurau caled					
Gosod cyfleuster newid/ cawodydd/ loceri ar y safle	Cydlynedd Cynllun Teithio/Rheolwr cyfleusterau ar y safle	Canol 2019		Uchel	
Trafnidiaeth Gyhoeddus					
Mesurau meddal					
Sicrhau bod gwybodaeth am drafnidiaeth lleol ar gael i staff trwy amrywiaeth o ddulliau e.e. mewnryd, carwselau gwybodaeth ayb.	Cydlynedd Cynllun Teithio	Ar unwaith/parhaus	Darparu gwybodaeth ar unwaith/ yn barhaus	Isel	Sefydlu cyflenwad gwybodaeth reolaidd gan weithredwyr trafnidiaeth lleol.
Cynnwys dolen o fewnryd i wefannau gweithredwyr trafnidiaeth lleol	Cydlynedd Cynllun Teithio/TG	Ar unwaith		Isel	
Mesurau caled					
Cysylltu â gweithredwyr	Cydlynedd	Canol 2019	Adleoli	Uchel	Llwyddiant yn ddibynnol ar

trafnidiaeth gyhoeddus i adleoli arosfannau bysiau yn nes at y safle.	Cynllun Teithio		arosfan(nau) bws		weithredwr trafndiaeth lleol
Rhannu Ceir					
Mesurau meddal					
Ymchwilio i ddarparu cronfa ddata rhannu ceir o fewn y sefydliad neu ei ddarparu'n allanol	Cydlynnydd Cynllun Teithio/TG	O fewn 6 mis		Isel	
Mesurau caled					
Dyrannu lleoedd parcio rhannu ceir yn y maes parcio yn nes at y brif fynedfa	Cydlynnydd Cynllun Teithio/Rheolwr cyfleusterau ar y safle	O fewn 6 mis	Dyrannu lleoedd	Isel	Monitro gweithrediad i benderfynu a oes angen gofod ychwanegol.

14.6. Atodiad 6: Enghreifftiau o Fapiau Llwybrau Preswyl (Ffynhonnell: Asbri Planning)







Cyngor Bro Morgannwg
**Cyfarwyddiaeth Adfywio a
Chynllunio**
Swyddfa Doc
Barri Doc
Barri Cf63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.valeofglamorgan.gov.uk